



Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

Prosiect AU Cymru gyfan

Prifysgol Abertawe: Samantha Burvill, Beth Cummings,
Simeon Smith, Fern Davies


Prifysgol Aberystwyth: Saffron Passam

Prifysgol Caerdydd: Gemma Peterson

Y Brifysgol Agored: Laura Carter

Prifysgol Bangor: Hizamshol Shamshul Kamal

Prifysgol Wreccsam: Lucy Jones



Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
1.1	Cefndir	4
1.2	Ar gyfer pwy y mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu?	4
1.3	Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn	5
2	Diffiniadau allweddol ar gyfer CMaCh	8
3	Fframweithiau sydd wrth graidd CMaCh	11
3.1	Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig	11
3.2	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	13
4	Astudiaethau achos y pecyn cymorth	14
4.1	Hyfforddiant a chymorth i staff	15
4.2	Dysgu ac addysgu	18
4.3	Prosiectau myfyrwyr ac asesu	23
4.4	Cyflogadwyedd a arweinir gan yrfaoedd	26
4.5	Adborth, digwyddiadau, cymorth a chystadlaethau myfyrwyr	29
4.6	Polisiâu, dyfarniadau, cymwysterau a chyllid	38
4.7	Addysg weithredol	45
4.8	Partneriaethau	48
4.9	Adnoddau cyflogadwyedd	51
5	Mapio sgiliau CMaCh	54
6	Moeseg a chynaliadwyedd yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd	57
7	Hyfforddiant/adnoddau CMaCh	63
8	Argymhellion	65
9	Cyfeiriadau	66
10	Talfyriadau	67
11	Atodiadau	68
12	Diolchiadau	76

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn trwy gydweithio rhwng academyddion a staff gwasanaethau proffesiynol ar draws Prifysgolion Cymru. Daethpwyd â'r grŵp yma ynghyd i ymchwilio i gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy (CMaCh) ym mhrifysgolion Cymru. Wrth i flaenoriaethau byd-eang symud tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol, rhaid i addysg drydyddol arfogi graddedigion â'r sgiliau i ffynnu mewn marchnad swyddi sy'n cael ei llywio gan bwrpas. Gan hynny rhoddwyd gorchwyl i'r grŵp CMaCh adolygu rôl hollbwysig prifysgolion o ran siapio llwybrau gyrfa sy'n effro i foeseg ac yn gynaliadwy ar gyfer myfyrwyr. O fewn hyn, rhoddwyd gorchwyl i'r grŵp archwilio arferion gorau o ran integreiddio cynaliadwyedd mewn cwricwla, meithrin datblygiad gyrfa sy'n gyfrifol, a phartneru gyda diwydiannau sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn.

Fe wnaeth cam cyntaf y prosiect hwn [arwain at adroddiad a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a gafwyd](#). Roedd yr ail gam yn cynnwys ymgynghoriad ag aelodau o Gymuned Ymarfer Medr/Advance HE i gael dealltwriaeth well am eu hanghenion mewn perthynas ag addysgeg CMaCh a disgwyliadau ar gyfer pecyn cymorth effeithiol. Yn benodol, fe archwiliwyd yr hyn y byddai ar addysgwyr a staff gwasanaethau gyrfaedd eisiau iddo gael ei gynnwys, a pha fathau o enghreifftiau manwl fyddai fwyaf defnyddiol iddynt hwy. Mae mewnwelediadau o'r ymgynghoriad hwn wedi siapio datblygiad y pecyn cymorth cyfredol yn uniongyrchol a byddant yn parhau i roi arweiniad i'r prosiect wrth iddo fynd rhagddo.

1.2 Ar gyfer pwy y mae'r pecyn cymorth wedi'i fwriadu?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn y sector addysg drydyddol sydd â diddordeb mewn datblygu, neu sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu, darpariaeth CMaCh. Er y daw'r astudiaethau achos o brifysgolion Cymru, mae eu perthnasedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i hyn, ledled y Deyrnas Unedig ond hefyd yn rhyngwladol. Mae'r enghreifftiau'n cwmpasu dysgu ac addysgu, ymchwil, y gwasanaeth gyrfaedd a menter, ymhlith eraill ac maent felly'n berthnasol i ystod eang o adrannau yn y sector addysg.

Yn y pen draw mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu i roi ysbrydoliaeth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn moeseg, cynaliadwyedd, a/neu gyflogadwyedd a'u rolau gorgyffyrddol mewn addysg drydyddol.

1.3 Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

1 Archwilio

Er mwyn deall pa un o'r astudiaethau achos allech fod yn dymuno adeiladu arni yn eich sefydliad bydd angen i chi gynnal Archwiliad CMACh yn gyntaf. Bydd hyn yn golygu eich bod yn dod i ddeall i ba raddau y mae cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy'n amlwg a/neu'n weladwy yn eich sefydliad chi ar hyn o bryd. Dangosodd ein hymgyngghoriad y gall fod cryn dipyn o amrywiad o ran sut y caiff CMACh ei fframio ar draws sefydliadau a'i bod hi'n rhesymol disgwyl efallai nad yw addysgwyr yn ymwybodol o arfer da sydd eisoes yn digwydd yn eu sefydliad. Yn yr ysbryd hwn, efallai yr hoffech ystyried i ba raddau y mae CMACh yn bresennol ar draws y themâu canlynol wrth archwilio hyn yn eich sefydliad chi.

- + Hyfforddiant a chymorth i staff
- + Dysgu ac addysgu
- + Prosiectau myfyrwyr ac asesu
- + Cyflogadwyedd a arweinir gan yrfaeodd
- + Adborth, digwyddiadau, cymorth a chystadlaethau myfyrwyr
- + Polisiâu, dyfarniadau, cymwysterau a chyllid
- + Rhwydweithiau a fforymau
- + Addysg weithredol
- + Partneriaethau
- + Adnoddau cyflogadwyedd

Bydd pennu cwrpas yr archwiliad yn bwysig hefyd gan bod ystyriaethau micro hefyd a all fod yn berthnasol o fewn themâu. Er enghraifft:

- + mewn rhaglen astudio benodol
- + ar lefel astudio addysgol benodol
- + ar lefel adrannol
- + ar lefel ysgol
- + ar lefel prifysgol
- + ar draws gwahanol adrannau mewn prifysgol e.e. dysgu ac addysgu, ymchwil, menter ac entrepreneuriaeth neu'r gwasanaeth gyrfaoedd.

Mae matrices sgiliau (ar dudalen 53) wedi cael ei ddatblygu hefyd yn seiliedig ar yr astudiaethau achos a gasglwyd. Gan hynny awgrymir eich bod yn defnyddio'r matrices

sgiliau hwn wrth gynnal archwiliad o'r meysydd uchod. Er enghraifft, a ydych yn cynnal archwiliad o'r holl sgiliau ynteu ai cynnal adolygiad â ffocws penodol yw eich bwriad.

Bydd hi hefyd yn hollbwysig cael mewnbwn gan randdeiliaid ar draws eich adran/ysgol/prifysgol. Un o'r myfyrdodau o'n hymgyngghoriad ni oedd bod gwaith CMACh yn aml yn digwydd ond yn anodd i'w weld neu heb strwythurau cyfathrebu i adnabod pobl allweddol. Yn yr un modd, mynegodd rhai pobl ddiffyg ymwybyddiaeth o safbwyntiau hollbwysig y byddai angen eu deall. Gan hynny rydym yn argymhell eich bod yn cymryd yr amser i ddatblygu rhestr o gysylltiadau allweddol, pobl a fyddai o bosibl yn gallu darparu gwybodaeth neu eich cysylltu ag eraill. Dyma restr o rolau a awgrymir sy'n cysylltu â CMACh:

- + Arweinwyr enwebedig ar gyfer cynaliadwyedd (Swyddogion Cynaliadwyedd, Pennaeth Cynaliadwyedd, er enghraifft)
- + Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a rolau Cyflogadwyedd a Menter
- + Staff Academaidd ag arbenigedd mewn Cynaliadwyedd
- + Rheolwyr Ystadau a Chyfleusterau
- + Cynrychiolwyr Undebau Llafur
- + Rolau â ffocws ar Foeseg (megis Llywodraethu a Moeseg, arweinwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Ehangu Mynediad)
- + Cyfarwyddwyr Rhaglenni a Chynullwyr Modiwlau
- + Datblygwyr Dysgu ac Ymgysylltu â'r Gymuned
- + Byrddau Cynghori Diwydiant, Cyrff Proffesiynol a Chyflogwyr
- + Uwch Reolwyr

2 Adnabod a Chadarnhau

Yn seiliedig ar yr archwiliad CMACh yr ydych wedi'i gynnal, yn awr byddwch yn gallu adnabod y cryfderau a'r gwendidau sy'n amlwg. Bydd hyn yn eich helpu i flaenoriaethu rhai meysydd lle gall fod bylchau mewn darpariaeth CMACh ac y mae gofyn rhoi'r ffocws mwyaf arnynt. Yn awr dylech wybod pa themâu o'r astudiaethau achos CMACh neu sgiliau o'r matrices sgiliau yr hoffech adeiladu arnynt a dwyn ysbrydoliaeth ohonynt o bosibl.

3 Tyfu neu leihau yn unol â'r anghenion


Mae'n bwysig nodi bod yr astudiaethau achos a ddarperir yn y pecyn cymorth hwn yn dod o lu o wahanol sefydliadau a senarios lle'r oedd niferoedd y myfyrwyr, argaeledd adnoddau ac amser yn amrywio o bosibl. Felly bydd angen i chi dreulio amser yn ystyried sut y gellid tyfu neu leihau'r enghraifft i weddu i anghenion ac adnoddau eich sefydliad unigol chi. Mae rhai o'r enghreifftiau a ddarperir yn weddol hawdd i'w tyfu neu eu lleihau tra gall eraill fod yn anos.

4 Gweithredu a Gwerthuso

A chithau wedi adnabod pa astudiaeth achos yr hoffech ddwyn ysbrydoliaeth ohoni rydych yn barod i weithredu'r syniad yn eich sefydliad chi eich hun. Bydd hi'n bwysig gwerthuso pa mor dda y gweithredwyd y fenter er mwyn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

5 Cyfrannu

A chithau wedi gwreiddio CMACh ymhellach yn eich sefydliad mae'n bwysig cyfrannu at ddatblygiad parhaus gwybodaeth a chydweithio lle mae CMACh yn y cwestiwn. Os oes gennych unrhyw astudiaethau achos, enghreifftiau neu adborth y byddai gennych ddiddordeb yn eu hychwanegu at yr astudiaethau achos presennol yna anfonwch neges e-bost i s.m.burvill@swansea.ac.uk.



1 Archwilio 2 Adnabod 3 Tyfu neu leihau 4 Gweithredu 5 Cyfrannu

2 Diffiniadau allweddol ar gyfer CMaCh

Mae gwreiddio addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC) yn systematig mewn rhaglenni addysg yn hanfodol i arfogi myfyrwyr â'r wybodaeth a'r cymwyseddau y mae eu hangen i fynd i'r afael â heriau byd-eang (UNESCO, 2024a). Mae Datganiad Berlin yn rhoi pwyslais pellach ar arwyddocâd ADC a grym trawsnewidiol addysg, gan alw am newidiadau i integreiddio a chryfhau ADC yn llawn ym mhob cyd-destun addysgol erbyn 2030 fel "y sylfaen ar gyfer y trawsnewid sy'n ofynnol...i ddyfodol cynaliadwy" (UNESCO, 2021, t.2). Gan hynny, mae integreiddio ADC yn systemig yn hanfodol i sefydliadau ar draws pob lefel (Advance HE, 2024). Gyda'r ffocws cynyddol ar y nodau datblygu cynaliadwy (NDC), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mentrau'r economi gylchol, sero net a sgiliau gwyrdd, ni fu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy erioed gyn bwysiced.

Er bod mwy a mwy o ymwybyddiaeth o gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy a chefnogaeth iddo, mae'r cysyniad yn gymhleth ac wedi'i lwytho â gwerthoedd, gyda'i ystyrion, yr hyn sy'n bwysig, a'r hyn yr ystyrir ei fod yn bwysig, yn amrywio rhwng pobl a chyd-destunau. Mae moeseg, er enghraifft, yn ymwneud â'r hyn yr ydym ni'n penderfynu ei fod yn iawn neu'n anghywir, ond mewn addysg drydyddol, mae uniondeb academiaidd a chodau ymarfer proffesiynol hefyd yn trefnu sut yr ydym yn cydnabod bod rhywbeth yn iawn neu'n anghywir. Yn yr un modd, fe wnaeth y cyhoeddiad o bwys *Adroddiad Brundtland* (1987) gyflwyno cysyniad datblygu cynaliadwy fel un sy'n golygu "diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau" (t.2). Yma, caiff moeseg (yr hyn sy'n iawn ac yn anghywir) ei chyfuno â chynaliadwyedd ond gan roi mwy o bwyslais ar y ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n ategu dyfodol iach a theg. Yn yr ysbryd hwn, rydym yn troi yn awr at esboniad o'n ffordd ni ein hunain o feddwl a oedd yn sail i'r diffiniadau yr ydym wedi'u defnyddio, yn y gobaith y gall y myfyrdodau hyn fod yn ddefnyddiol i eraill sy'n cychwyn ar brosiectau tebyg.

Fe wnaeth sgysiau cynnar yn y prosiect ddatgelu yn wir bod pobl yn arddel dehongliadau gwahanol o gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Fel tîm, fe wnaethom fyfyrion ynghylch sut yr oedd hyn yn tanlinellu'r angen am ddealltwriaeth gyffredin; hyd yn oed pan fo pobl yn gweithio mewn gofod tebyg, pan ydynt wedi'u cymell i weithio mewn ffordd foesegol a chynaliadwy, a phan fo ganddynt yr adnoddau a'r grym i wneud hynny. Fe ddechreuom ni â thrafodaeth am yr hyn y mae cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy'n ei olygu i ni a pha nodweddion y gall fod angen i ddiffiniad feddu arnynt. Fe drafodom ni'r pwyntiau canlynol i angori ein ffordd o feddwl:

- + Wedi'i wreiddio mewn moeseg a gwerthoedd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol, cyfrifoldeb a meddwl am yr hirdymor.
- + Yn berthnasol i bob gyrfa a rôl waith ac nid dim ond yn rhai yr ystyrir eu bod yn 'wyrdd' neu'n ymwneud â chynaliadwyedd.
- + Yn cynnwys disgyblaethau a meysydd pwnc.
- + Yn mapio, neu o leiaf yn gwneud synnwyr, i fodelau a fframweithiau datblygu cyflogadwyedd presennol.

- + Yn cydnabod y gall terminoleg wahanol fod yn cael ei defnyddio ar draws AU, AB a chyflogwyr.
- + Yn pwysleisio meddwl trwy systemau a rhyng-gysylltiad rhwng ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- + Yn ategu dysgu a datblygu gydol oes y tu hwnt i gymwysterau.
- + Yn berthnasol i addysgwyr ym mhob rôl (athrawon/darlithwyr, gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol, a chymorth bugeiliol).
- + Yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau byd-eang sy'n dod i'r amlwg ac i helpu addysgwyr i wneud cyfraniad ystyrlon (hyd yn oed pan fo maint y broblem yn llethol).

Wedyn fe gynhaliodd y grŵp ymarfer ymchwil desg i adnabod diffiniad addas, gan ddewis diffiniad UNESCO o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn y pen draw i roi arweiniad ar gyfer y prosiect:

“Mae ADC yn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a chymryd camau gweithredu cyfrifol er mwyn cyfanrwydd amgylcheddol, hyfywedd economaidd a chymdeithas gyfiawn, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol ar yr un pryd. Mae a wnelo â dysgu gydol oes, ac mae'n rhan annatod o addysg o ansawdd. Mae ADC yn addysg gyfannol a thrawsnewidiol sy'n ymdrin â chynnwys a deilliannau dysgu, addysgeg a'r amgylchedd dysgu. Mae'n ateb ei diben trwy drawsnewid cymdeithas” (UNESCO, 2021, t.8).

Fe ddewisom ni hwn fel ein diffiniad craidd em ei fod yn cynnwys:

- + ffocws ar rymuso, galluedd, a thrawsnewid; gan gynorthwyo myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a chymryd camau gweithredu cyfrifol mewn ffordd sy'n siapio eu hymagwedd at ddysgu gydol oes
- + sylfaen o foeseg a chyfiawnder cymdeithasol; gan gydnabod bod rhesymu moesegol yn tanategu prosesau penderfynu cynaliadwy
- + amrywiaeth ddiwylliannol a chyfrifoldeb sy'n pontio'r cenedlaethau; gan amlygu pwysigrwydd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bob rhan o'r byd a pharch tuag atynt
- + hyblygrwydd o ran mapio i unrhyw gyd-destun ac unrhyw ddysgwr.

Diffiniadau eraill a gyfrannodd ddimensiwn pwysig at y prosiect ac a allai fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr y pecyn cymorth yw:

- + “Bod ADC *“yn arfogi dysgwyr â’r wybodaeth, cymwyseddau a gwerthoedd i ymdrin â heriau byd-eang rhyng-gysylltiedig a chael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol”* (Advance HE, 2024, t.2).

Yn yr un modd,

- + Bod ADC *“yn datblygu cymwyseddau – sgiliau, priodoleddau a gwerthoedd – a sut y maent yn cysylltu â gwybodaeth bynciol a gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy. Mae ADC yn cynorthwyo dysgwyr ar draws pob disgyblaeth a maes pwnc academiaidd i greu a mynd ar drywydd gweledigaethau am fyd gwell”* (QAA, 2021).

Mae’r diffiniadau gan Advance HE a QAA yn blaenoriaethu profiad dysgwyr â chyfeiriadedd ymarferol; gan bwysleisio dull seiliedig-ar-sgiliau o ymdrin ag ADC a fyddai’n gyfarwydd i addysgwyr sy’n gweithio yn y gofod cyflogadwyedd. Mae’r pwyslais ar yr hyn y mae addysgwyr ‘yn ei wneud’ fel addysg cynaliadwyedd a gaiff ei llywio gan broses, yn hytrach na’r hyn y mae’r dysgwr yn ei gaffael. Yn yr un modd, mae mabwysiadu sgiliau, priodoleddau a gwerthoedd yn mapio’n uniongyrchol i ddiffiniadau cyffredin eu defnydd o gyflogadwyedd, felly mae addysgwyr sy’n newydd i’r gofod yn fwy tebygol o adnabod eu cyfraniadau presennol yn hytrach na dull cwbl wahanol. Mae’r safbwynt ymarferol sy’n seiliedig ar broses yn ddefnyddiol hefyd am ei fod yn gosod addysg yn benodol fel mecanwaith gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd, gan felly ategu newidiadau i ddyluniad cwricwla a rhaglenni a deilliannau dysgu a geisir. Gall yr agwedd ‘heddiw, yma, nawr’ (o’i chyferbynnu â phwyslais UNESCO ar elfennau trawsddiwylliannol ac sy’n pontio’r cenedlaethau) ddarparu dull sy’n canolbwyntio’n fwy ar ddeilliannau, gan hefyd gydnabod cymhlethdod trwy heriau byd-eang cydgysylltiedig. Roeddem ni o’r farn y byddai’r diffiniadau hyn yn ddefnyddiol i addysgwyr yr oedd arnynt angen cadw ffocws lleol ar eu gwaith, yn hytrach na theimlo wedi’u gorlethu o bosibl gan faint yr her.

Nod y pecyn cymorth hwn oedd casglu astudiaethau achos ac fe roddom ni’r diffiniadau hyn ar waith i gyfleu i bobl eraill yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Yn y pen draw, roedd arnom eisiau casglu enghreifftiau arfer gorau o sut y mae sgiliau a chymwyseddau moesegol a chynaliadwy’n cael eu datblygu mewn addysg drydyddol ac er mwyn cyrraedd y nod hwnnw roedd angen i addysgwyr sy’n gweithio yn y gofod wybod ein bod yn eu golygu (ni waeth pa un a ydynt yn defnyddio iaith a therminoleg ADC ai peidio). Cafodd yr enghreifftiau o astudiaethau achos a amlygir yn y pecyn cymorth hwn eu llunio trwy ofyn i randdeiliaid yn sector addysg drydyddol Cymru a’r tu allan iddo ddarparu enghreifftiau o gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn eu sefydliadau hwy.

Mae’n nodedig bod y mwyafrif o enghreifftiau a goladwyd o brifysgolion yn hytrach nag addysg bellach (AB); mae hwn ynddo’i hun yn ganfyddiad diddorol ac yn awgrymu bod angen rhagor o gydweithio a chyfathrebu rhwng AU ac AB. Felly bydd coladu enghreifftiau o AB yn rhan o brosiect parhaus.

3 Fframweithiau sydd wrth graidd CMaCh

Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy mewn addysg uwch, y mae'r amryw ddiffiniadau ohono wedi cael eu trafod yn yr adran flaenorol. Fodd bynnag, ceir hefyd fframweithiau a mentrau allweddol a ddatblygwyd sy'n alinio'n agos â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Mae'r holl astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth hwn yn cyd-fynd neu'n cysylltu ag un neu fwy o'r fframweithiau hyn a chan hynny mae'r adran hon o'r pecyn cymorth yn rhoi crynodeb byr o'r rhain.

3.1 Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Fframwaith blaenllaw a luniwyd i ymdrin â'r heriau byd-eang yw Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig (Y Cenhedloedd Unedig, 2015). Yn 2015, fe addunedodd llywodraethau aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig i gyrraedd yr 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy erbyn 2030. Mae'r rhain yn ymdrin ag ystod o heriau sy'n cynnwys tlodi, iechyd a llesiant, addysg, cydraddoldeb rhywedd, dŵr glân a glanweithdra, arloesi a seilwaith. Er nad yw'r nodau'n rhwymo mewn cyfraith, disgwylir i wledydd gymryd cyfrifoldeb am eu rhoi ar waith ac asesu eu cynnydd yn rheolaidd. Mae'n fframwaith gwerthfawr a ymgorfforir yn fynydd mewn addysg uwch. Fodd bynnag, dengys asesiadau diweddar fod y byd ymhell oddi ar y trywydd cywir i gyrraedd y nodau hyn, sy'n tanlinellu'r angen i baratoi myfyrwyr ar gyfer newidiadau parhaus ac ar ôl 2030 i gynaliadwyedd (UNESCO, 2024).



Ffigur 1. Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC). 1 DIM TLODI; 2 DIM NEWYN; 3 IECHYD A LLESANT DA; 4 ADDYSG O ANSAWDD; 5 CYDRADDOLDEB RHYWEDD; 6 DWR GLÂN A GLANWEITHDRA; 7 YNNI GLÂN A FFORDDIADWY; 8 GWAITH GWEDDUS A THWF ECONOMAIDD; 9 DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH; 10 LLAI O ANGHYDRADDOLDEBAU; 11 DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY; 12 DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU CYFRIFOL; 13 GWEITHREDU AR YR HINSAWDD; 14 BYWYD O DAN Y DŴR; 15 BYWYD AR Y TIR; 16 HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CRYFION; 17 PARTNERIAETHAU AR GYFER Y NODAU

3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Enghraifft leol a chyd-destun-benodol o Gymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hon yn Ddeddf unigryw sydd wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant, sydd wedi'u halinio â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, y mae'n rhaid i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus dynodedig eraill ymlynu wrthynt. Mae'r nodau'n cynnwys: 1) Cymru lewyrchus, 2) Cymru gydnerth, 3) Cymru iachach, 4) Cymru sy'n fwy cyfartal, 5) Cymru o gymunedau cydlynus, 6) Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a 7) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr hirdymor, gan felly eu galluogi i fynd i'r afael â heriau byd-eang ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol (DLICD, 2015). Fodd bynnag, mae dylanwad y Ddeddf wedi ymestyn y tu hwnt i sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnig fframwaith cyd-destun benodol a mewnweledol ar gyfer integreiddio i mewn i addysg fusnes a rheoli.



Ffigur 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang; Cymru Lewyrchus; Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru Gydnerth; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal

4 Astudiaethau achos y pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu i ddarparu astudiaethau achos sy'n dangos arfer gorau yn y sector i'ch galluogi a'ch ysbrydoli i adeiladu ar y rhain yn eich sefydliadau chi eich hun. Cyflwynir yr astudiaethau achos yn ôl y themâu canlynol a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil i gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy mewn prifysgolion ledled Cymru:

- + Hyfforddiant a chymorth i staff
- + Dysgu ac addysgu
- + Prosiectau myfyrwyr ac asesu
- + Cyflogadwyedd a arweinir gan yrfaoedd
- + Adborth, digwyddiadau, cymorth a chystadlaethau myfyrwyr
- + Polisïau, dyfarniadau, cymwysterau a chyllid
- + Rhwydweithiau a fforymau
- + Addysg weithredol
- + Partneriaethau
- + Adnoddau cyflogadwyedd

Datblygwyd matrices sgiliau yn seiliedig ar yr astudiaethau achos hyn ac mae i'w gael yn adran 5. Awgrymir eich bod yn defnyddio'r matrices sgiliau ar y cyd â'r rhestr o astudiaethau achos a gyflwynir yma. Mae'r adran ganlynol yn manylu ar yr astudiaethau achos ac yn darparu gwybodaeth allweddol y mae ei hangen pe baech chi'n ystyried gwreiddio'r enghraifft hon yn eich sefydliad chi. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r adnoddau allweddol y mae eu hangen, gwersi a ddysgwyd a'r negeseuon allweddol. Darperir rhestr lawn o'r holl enghreifftiau a gasglwyd (gan gynnwys y rhai nad ymhelaethir arnynt isod) yn atodiad 1.

4.1 Hyfforddiant a chymorth i staff



Astudiaeth Achos: Cwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon Prifysgol Abertawe

Sefydliad: Prifysgol Abertawe.

Cyswllt Arweiniol: Teifion Maddocks, Rheolwr Cynaliadwyedd

E-bost: sustainability@swansea.ac.uk

Trosolwg

Fe ddatblygodd Tîm Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe Gwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon ar-lein byr (1-2 awr) i roi dealltwriaeth eglur i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid am llythrennedd carbon a newid hinsawdd. Fe grëwyd y cwrs dwyieithog ar y cyd gan staff a myfyrwyr y brifysgol, Cynnal Cymru, a Tantrwm, cwmni cyfryngau digidol sydd wedi'i leoli yn Aberdâr. Fe'i cefnogwyd â chyllid CCAUC/Medr ac fe'i hysbrydolwyd gan Hyfforddiant y Prosiect Llythrennedd Carbon, ond roedd wedi'i fwriadu i fod yn fwy hygyrch ac i allu tyfu a lleihau yn unol â'r anghenion yng nghyd-destun y brifysgol.

Nodau a fformat

- + Meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am faterion carbon a'r hinsawdd, gan arfogi dysgwyr â'r wybodaeth a'r hyder i weithredu mewn modd ystyrlon ar yr hinsawdd yn y brifysgol a'r tu hwnt.
- + Datblygu sylfeini mewn llythrennedd carbon ac ymwybyddiaeth o effeithiau ar yr hinsawdd.
- + Annog unigolion a'r sefydliad i weithredu i leihau allyriadau carbon.
- + Hybu'r arfer o fyfrio ynghylch arferion cynaliadwyedd yng nghyd-destun Prifysgol Abertawe.
- + Cynorthwyo staff i wreiddio cysyniadau cynaliadwyedd wrth ddylunio a darparu cwricwla.

- + Fformat: Cwrs ar-lein byr (1-2 awr) a letyir ar Canvas. Dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- + Cyfranogwyr: Ar gael i'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid ar draws Prifysgol Abertawe.
- + Adnoddau a Chostau: Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth gyda Cynnal Cymru a Tantrwm. Fe'i cyllidwyd trwy CCAUC a Medr i gefnogi costau datblygu.

Effaith a gwerthuso

Deilliannau i fyfyrwyr:

- + Mwy o ddealltwriaeth am leihau carbon a gweithredu ar yr hinsawdd ymhlith cyfranogwyr.
- + Sgiliau cynaliadwyedd a chyflogadwyedd, gan galluogi dysgwyr i'w cymhwyso mewn cyd-destunau proffesiynol ac academiaidd.
- + Addunedau gan fyfyrwyr i leihau allyriadau carbon ar ôl cwblhau'r cwrs.
- + Llwybr hyblyg a hygyrch i ddysgu y gellir ei astudio o fewn modiwlau neu ei gwblhau'n annibynnol.

Manteision sefydliadol:

- + Aliniad â strategaeth a blaenoriaethau sefydliadol.
- + Hyfforddiant cost-efeithiol sy'n gallu tyfu neu leihau yn unol â'r anghenion ar gyfer pob disgyblaeth a'r holl randdeiliaid.
- + Gwella enw da am arweinyddiaeth mewn addysg cynaliadwyedd.
- + Gwella priodoleddau a chyflogadwyedd graddedigion.

Gwersi a ddysgwyd

- + Mae hygyrchedd yn allweddol – Mae cyrsiau ar-lein byr yn caniatáu hyblygrwydd gan gynyddu cyfranogiad o ganlyniad.
- + Mae integreiddio'n gwella ymgysylltiad. Mae myfyrwyr yn fwy tebygol o gwblhau'r cwrs pan fo wedi'i wreiddio mewn rhaglen neu fodiwl.
- + Mae enghreifftiau ymarferol a chyd-destun-benodol yn cynyddu perthnasedd ac yn helpu dysgwyr i gysylltu damcaniaeth ag arfer sefydliadol.
- + Ystyriaethau i degwch. Mae bwcio labordy cyfrifiaduron neu ddarparu mynediad at ddyfeisiau'n sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu cyfranogi'n llawn.

Astudiaethau Achos Tebyg

Disgwylir y bydd cyrsiau e-ddysgu fel 'Cwrs Hinsawdd a Charbon' Prifysgol Abertawe a 'Ti, Fi a Dyfodol Cymru' gan y Brifysgol Agored yn amhrisiadwy wrth i dirwedd ddigidol addysg drydyddol esblygu.

Mae hyfforddiant a chymorth i staff yn hanfodol i gyfrannu at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Roedd astudiaethau achos ychwanegol a adnabuwyd yn cynnwys gweithdy datblygu staff i ategu 'Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a'u 'Gweithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd', 'Cwrs Canvas Gwreiddio Cynaliadwyedd ac Argyfwng yr Hinsawdd mewn Cwricwla Addysg Uwch' a 'Chwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon' Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe. Mae'r digwyddiad 'Bydd Wyrdd: Nodau Datblygu Mewnol' i staff a'r 'Cardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu' yn ôl y fframwaith Dylunio Cyfrifol (RBD) gan y Brifysgol Agored yn gyfraniadau pellach at hyfforddiant staff i hybu cynnwys a sgiliau perthnasol mewn addysg. Ceir rhagor o fanylion yn yr atodiad.

Neges Allweddol: Mae cwrs ar-lein byr, hygyrch a chyd-destun-benodol yn ffordd effeithiol o wreiddio llythrennedd carbon ar draws y brifysgol, gan hybu cyflogadwyedd moesegol a nodau cynaliadwyedd sefydliadol.

4.2 Dysgu ac addysgu



Astudiaeth achos: Adennill Paradwys – cynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar

Sefydliad: PCDDS

Cyswllt Arweiniol: Dr Glenda Tinney, Uwch Ddarlithydd, Athrofa Addysg a'r Dyniaethau

E-bost: g.tinney@uwtsd.ac.uk

Trosolwg

Mae'r modiwl lefel 6 hwn, sydd wedi'i wreiddio yng ngradd Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar yn PCDDS, wedi'i fwriadu i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn ymgysylltu â disgwrs cynaliadwyedd trwy ddysgu drwy brofiad.

Mae'n integreiddio Gwobr John Muir (<https://www.johnmuirtrust.org/award>) a gweithgareddau ymarferol megis teithiau natur a garddio i ddyfnhau ymgysylltiad myfyrwyr â chynaliadwyedd. Mae'r modiwl yn hybu myfyrion beirniadol ynghylch dimensiynau athronyddol, diwylliannol-gymdeithasol a pholisi cynaliadwyedd yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, gan roi anogaeth ar gyfer dinasyddiaeth gyfrifol a stiwardiaeth amgylcheddol. Mae gweithgarwch cydweithio blynyddol megis Cynhadledd Newid Hinsawdd Plant Caerfyrddin yn gwella'r effaith ymhellach.

Nodau a fformat

- + **Diben:** Ennyn ymgysylltiad myfyrwyr Addysg y Blynyddoedd Cynnar â disgwrs cynaliadwyedd.
- + **Deilliannau Dysgu:** Dadansoddiad beirniadol o ddulliau cyfredol o ymdrin ag addysg a gofal y blynyddoedd cynnar o safbwynt cynaliadwyedd gan gynnwys cyd-destunau athronyddol, diwylliannol-gymdeithasol, hanesyddol, deddfwriaethol a pholisi perthnasol mewn perthynas â chynaliadwyedd a dinasyddiaeth.
- + **Fformat:** Modiwl aml-ddull Lefel 6 gan gynnwys tasgau ymarferol megis garddio, archwilio natur, fideos ac erthyglau, a chan wreiddio Gwobr John Muir.
- + **Cyfranogwyr:** 70 o fyfyrwyr o Addysg y Blynyddoedd Cynnar.

- + **Adnoddau a Chostau:** Darperir adnoddau ar gyfer costau staffio ac ariannol fel rhan o'r cwricwlwm Lefel 6. Mae Gwobr John Muir yn cynnwys ffioedd aelodaeth a gall myfyrwyr gael mynediad at Fwrsariaeth Costau Cyrsiau PCDDS i gefnogi'r adnoddau y mae eu hangen yn y modiwl hwn.

Effaith a gwerthuso

Deilliannau myfyrwyr

- + Mae asesu'r modiwl yn cynnwys cyfrif myfyriol, a ddefnyddir i werthuso dysgu ac ymgysylltiad hunanganfyddedig myfyrwyr.
- + Mae'n cryfhau gallu myfyrwyr i fod yn fodelau rôl i blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.
- + Caiff agweddau rhyngddisgyblaethol a chydgyssylltiedig ar gynaliadwydd eu hadlewyrchu yn y naratifau, yr wybodaeth ecolegol, ffotograffau, celf, a barddoniaeth a gaiff eu coladu ar gyfer Gwobr John Muir.

Manteision ychwanegol

- + Mae myfyrwyr yn ymgysylltu â gwaith cadwraeth ymarferol, gan greu cynefinoedd pryfed, codi ysbwriel, gwneud porthwyr adar, a chodi ymwybyddiaeth o arferion cadwraeth a chynaliadwydd.
- + Mae gweithgareddau a wneir yn ategu bioamrywiaeth a chysylltiad â'r ardal a chymunedau lleol.

Gwersi a ddysgwyd

- + Mae cynnwys myfyrwyr mewn profiadau go iawn yn ategu dealltwriaeth am faterion cynaliadwydd ac yn dyfnhau disgwrs.
- + Mae cynnwys cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hunanddethol yn cynyddu ymgysylltiad.
- + Mae defnyddio Gwobr John Muir fel darpariaeth allanol ochr yn ochr â gweithgareddau dosbarth wedi galluogi myfyrwyr i ystyried perthnasedd cynaliadwydd, a sut y mae'n cydblethu ag addysg y blynyddoedd cynnar a chyflogadwydd.
- + Bydd datblygiad yn y dyfodol yn ehangu themâu i gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol ar gynaliadwydd.

Neges allweddol:

Mae gwreiddio gweithgareddau ymarferol, sy'n ymwneud â dysgu drwy brofiad, megis archwilio natur, garddio a Gwobr John Muir o fewn addysg y blynyddoedd cynnar yn dyfnhau dealltwriaeth myfyrwyr am gynaliadwydd, gan eu helpu i ddod yn ymarferwyr adfyfyriol, cyfrifol a all fodelu stiwardiaeth amgylcheddol ac arferion cynaliadwydd ystyrlon yn eu lleoliadau proffesiynol yn y dyfodol.



Astudiaeth achos: Lleoedd Newid Hinsawdd (PloCC), Prifysgol Bangor

Sefydliad: Prifysgol Bangor

Cyswllt Arweiniol: Yr Athro Thora Tenbrink, Cyfarwyddwr – Canolfan Ymchwil Lleoedd Newid Hinsawdd (PloCC)

E-bost: plocc@bangor.ac.uk

Trosolwg

Mae Canolfan Ymchwil Lleoedd Newid Hinsawdd (PloCC) ym Mhrifysgol Bangor yn hybu ymgysylltiad rhyngddisgyblaethol â newid hinsawdd trwy ymchwil, addysgu ac allgymorth. Mae gweithgareddau'n cynnwys seminarau misol, is-grwpiau thematig, sesiynau ysgrifennu grantiau, a phrosiectau amrywiol megis [Gwerthu Cynaliadwyedd](#). Mae rhaglen Meistr rhyngddisgyblaethol newydd mewn [Rheolaeth ar gyfer Newid Hinsawdd](#) yn gwella arlwy academiaidd PloCC ymhellach.

Nodau a deilliannau dysgu:

- + Datblygu dulliau moesegol a chynaliadwy o ymdrin â newid hinsawdd.
- + Darparu cyfleoedd hyfforddi i fyfyrwyr ac ymchwilwyr ar draws pob lefel.
- + Rhoi anogaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio rhyngddisgyblaethol.
- + Ysbrydoli staff a myfyrwyr i ddilyn gyrfaoedd mewn cynaliadwyedd o fewn y byd academiaidd a'r tu allan iddo.

Cyfranogwyr a'u hymwneud:

- + Aelodaeth graidd: Bwrdd Rheoli (10 academydd), >40 o aelodau rheolaidd (staff/myfyrwyr), a >50 o aelodau cyswllt (gan gynnwys rhai nad oeddent yn academyddion).
- + Mae cyfranogwyr yn rhychwantu ymchwilwyr PhD, academyddion gyrfaf gynnar, darlithwyr, athrawon, a myfyrwyr israddedig ac ôl-radd.

- + Mae ymgysylltiad hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid allanol (e.e. Syniadau Mawr Cymru, Parc Gwyddoniaeth Menai).

Adnoddau a chostau:

- + Mae gweithgareddau craidd yn dibynnu ar offer cyfathrebu digidol safonol.
- + Mae prosiectau penodol yn denu cyllid wedi'i dargedu o amryw ffynonellau mewnol ac allanol. Enghraifft: Cefnogwyd *Gwerthu Cynaliadwyedd* â chyllid Cynllun Interniaeth Israddedig a Menter Prifysgol Bangor.

Aliniad â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

Mae moeseg a chynaliadwyedd yn tanategu holl fentrau PloCC. Mae gweithgareddau'n meithrin sgiliau trosglwyddadwy mewn rheoli prosiectau, cydweithio rhyngddisgyblaethol, a meddwl yn gynaliadwy. Mae'r ymwneud gan fyfyrwyr (e.e. interniaethau, prosiectau traethawd hir, allbynnau cyfryngol) yn darparu hyfforddiant ymarferol mewn gweithredu moesegol a chynaliadwy sy'n berthnasol ar draws sectorau academiaidd, cyhoeddus a phreifat.

Effaith a gwerthuso

- + Mae seminarau a gweithdai yn gyson yn denu cyfranogiad cryf ar ffurf hybrid, gyda recordiadau'n cael eu harchifo trwy sianel YouTube PloCC.
- + Mae gan allbynnau lluosog aelodau PloCC o brosiectau cydweithredol gyrhaeddiad eang gydag effeithiau ledled Cymru a'r tu hwnt.
- + Fe ddangosodd *Gwerthu Cynaliadwyedd* effaith gref: fe wnaeth gweithdy archwilio ffactorau sy'n rhwystro/galluogi ymgysylltiad â chynaliadwyedd, cynhyrchu allbynnau cyfryngol (blog, podlediad, fideos, Gweithdy Lego a.y.b.) a chynyddu'r diddordeb ymhlith myfyrwyr a phartneriaid allanol. Fe wnaeth gwerthuso trwy adborth cyfranogwyr a myfyrio ôl-ddoethurol gadarnhau llwyddiant a chyrhaeddiad y fenter.

Mewnwelediadau allweddol a gwersi a ddysgwyd

- + Effaith sy'n gallu tyfu neu leihau yn unol â'r anghenion: gellir darparu'n llwyddiannus â'r gost ariannol isaf posibl trwy drosoli adnoddau sefydliadol a phartneriaethau.
- + Ymgysylltiad myfyrwyr: mae prosiectau megis *Gwerthu Cynaliadwyedd* yn galluogi allbynnau creadigol (fideos byr, podlediadau) gan ehangu allgymorth trwy ddulliau cyfathrebu newydd, gan amlygu gwerth 'dod o hyd i'r bwlch' a theilwra negeseuon cynaliadwyedd i gynulleidfaoedd amrywiol.
- + Cynaliadwyedd ar waith: cyflawnir deilliannau effeithiol gan ddefnyddio adnoddau presennol ar y cyd â chyllid wedi'i dargedu, sy'n adlewyrchu dulliau mentegar a chynaliadwy.

Neges allweddol:

Trwy feithrin cydweithio rhyngddisgyblaethol a galluogi myfyrwyr a staff i ymgysylltu â phrosiectau cynaliadwyedd creadigol, go iawn, mae PloCC yn dangos sut y gellir cyflawni addysg ac allgymorth â ffocws ar yr hinsawdd sy'n cael effaith fawr a hynny â'r adnoddau lleiaf posibl, gan feithrin sgiliau ymarferol, ehangu ymgysylltiad cyhoeddus, ac ysbrydoli llwybrau gyrfa moesegol, a gaiff eu llywio gan gynaliadwyedd.

Astudiaethau achos tebyg

Modiwlau: modiwlau megis 'Rheoli Amgylcheddol a Chynaliadwy', 'Moeseg mewn Peirianeg' a 'Gwreiddio Dulliau Gwyrdd mewn Ymarfer yn y Cyfryngau' o Brifysgol Abertawe. 'Gwreiddio Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) fel Ysgogwyr ar gyfer Ymchwil mewn Biotechnoleg' a Newid Ymddygiad' o Brifysgol Aberystwyth. 'Adennill Paradwys: Cynaliadwyedd yn y Blynnyddoedd Cynnar' o PCDDS. 'Gwyddorau Daear Cynaliadwy', a 'Hanes Amgylcheddol' o Brifysgol Caerdydd.

Seminarau, Darlithoedd a Gweithdai: mae enghreifftiau'n cynnwys y ddarlith 'Gwreiddio Cynaliadwyedd yn y Gyfraith' a draddodwyd mewn cydweithrediad gyda diwydiant ym Mhrifysgol Abertawe. Seminar 'Cyllid Cynaliadwyedd ac ACLI' o Brifysgol Bangor. Y darlithoedd 'Datblygu Cynaliadwy a Rheoli gyda Natur' a 'Lleoedd Newid Hinsawdd' a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd. Roedd gan y 'Gweithdai MSc Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru' hefyd gynnwys i gynyddu gwybodaeth am arferion cynaliadwy.

4.3 Prosiectau myfyrwyr ac asesu



Astudiaeth achos: Marchnata er daioni

Sefydliad: Prifysgol Abertawe

Cyswllt Arweiniol: Lucy Griffiths

E-bost: beth.cummings@swansea.ac.uk

Trosolwg

Cafodd y fenter ‘Marchnata er Daioni’ ei gwreiddio o fewn modiwl israddedig Lefel 5 a oedd yn dwyn y teitl ‘Marchnata Digidol’ ac a oedd yn integreiddio prosiectau a asesir sydd â chyswllt â diwydiant yn seiliedig ar friffiau byw a bennwyd gan dri chleient allanol yn y trydydd sector: Ambiwylans Awyr Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, a The Wallich. Trwy gydol y tymor bu myfyrwyr yn ymgysylltu â’r cleientiaid hyn, gan gyfuno darlithoedd academiaidd â datblygiad sgiliau diwydiant ymarferol mewn labordai. Roedd yr asesiad yn golygu cynhyrchu cynllun ar gyfer ymgyrch digidol a dau ddarn o gynnwys marchnata. Roedd y fenter wedi’i strwythuro i gynnwys elfen gystadleuol, gyda gwobrau am y ‘Cynllun Gorau’ a’r ‘Cynnwys Gorau’ ym mhob categori cleientiaid, a feirniadwyd gan y cleientiaid a’r tîm academiaidd.

Nodau a deilliannau dysgu

- + **Diben:** ymgysylltu â chleientiaid yn y byd go iawn a datblygu sgiliau cyflogadwydd.
- + **Deilliannau dysgu:** cymhwyso damcaniaeth farchnata mewn cyd-destunau moesegol a chynaliadwy, gwreiddio egwyddorion ACLI yn y cwricwlwm gan alluogi myfyrwyr i ragori mewn agweddau creadigol ac academiaidd ar yr asesiad.
- + **Fformat:** darparodd cleientiaid friffiau a oedd yn canolbwyntio ar ddaioni cymdeithasol, fe greodd myfyrwyr gynllun ar gyfer ymgyrch digidol a dau ddarn o gynnwys marchnata. Cafodd gwobrau am y Cynllun Gorau a’r Cynnwys Gorau eu beirniadu gan gleientiaid ac academyddion.

- + **Cyfranogwyr:** 161 o fyfyrwyr israddedig ail flwyddyn o'r portffolio BSc Rheoli Busnes a BSc Marchnata
- + **Adnoddau a chost:** offer rhad-ac-am-ddim: Canva, Leonardo, Semrush. Cost tlysau a lluniaeth yn y seremoni wobrwyo

Manteision a deilliannau allweddol

- + Cafodd myfyrwyr brofiad ymarferol o greu cynnwys marchnata ar gyfer cleientiaid yn y byd go iawn, gan wella eu cyflogadwyedd.
- + Darparodd y seremoni wobrwyo gydnabyddiaeth am waith neilltuol, gan feithrin ymdeimlad o gyflawniad a rhoi anogaeth i ymgysylltu ymhellach.
- + Roedd adborth gan gleientiaid a'r tîm academiaidd yn pwysleisio ansawdd ac effaith gwaith myfyrwyr, gyda rhai darnau o gynnwys yn cael eu hystyried ar gyfer eu datblygu ymhellach.

Gwerthuso a mesurau o lwyddiant

- + Roedd sgoriau adborth myfyrwyr yn amlygu gwerth gweithio ar friffiau byw a chael adborth uniongyrchol gan gleientiaid.
- + Roedd adborth digymell ar y cyfryngau cymdeithasol gan gleientiaid a myfyrwyr yn canmol y fenter am ei heffaith gadarnhaol ar gyflogadwyedd a datblygu sgiliau.
- + Cafodd deilliannau eu hasesu hefyd trwy ansawdd gwaith myfyrwyr, gyda chleientiaid yn canmol cynnwys penodol gan fyfyrwyr am ei greadigrwydd a'i aliniad strategol ag amcanion yr ymgyrch.
- + Mae briffiau o'r byd go iawn yn darparu cyd-destunau nerthol, ysgogol ar gyfer gweithgarwch dysgu'r myfyrwyr ac mae iddynt effaith arbennig o fawr pan gânt eu cysylltu â nodau moesegol a chynaliadwy.
- + Mae cyfathrebu tryloyw gyda chleientiaid am y disgwyliadau o waith myfyrwyr yn sicrhau bod briffiau'n cael eu cwmpasu'n briodol ar gyfer galluedd myfyrwyr.
- + Gall seremonïau gwobrwyo fod yn gyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr, gan gysylltu myfyrwyr yn uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant ac atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith o ansawdd da.

Gwersi a ddysgwyd

- + Amrywiaethu'r mathau o brosiectau a themâu cynaliadwyedd.
- + Ymgorffori elfennau adfyfyriol mwy strwythuredig i ddyfnhau'r dysgu.

Astudiaethau achos tebyg

Roedd asesu'n thema arall a adnabwyd wrth gasglu data, gyda ffocws penodol ar ddulliau arloesol a datblygu priodoleddau graddedigion megis gwaith grŵp, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a chymhwyso problemau ymarferol ac o'r byd go iawn mewn lleoliadau perthnasol ym myd diwydiant.

Roedd prosiectau myfyrwyr hefyd yn amlwg iawn fel dulliau pwysig o wella cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol, er enghraifft prosiectau a osodwyd gan randdeiliaid ym myd diwydiant megis 'Marchnata er Daioni' a'r 'Prosiectau Busnes' copa ym Mhrifysgol Abertawe.

Cyfeiriwyd hefyd at brosiectau grŵp megis 'Moeseg mewn Peirianeg' ym Mhrifysgol Abertawe, y prosiectau grŵp 'MSc Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru' ym Mhrifysgol Caerdydd, y prosiect ymchwil archwiliad o'r cwricwlwm o safbwynt y NDC dan arweiniad myfyrwyr yn y Brifysgol Agored a 'Phrosiect Labordy Byw' Prifysgol Wrecsam.

Neges allweddol:

Mae gwreiddio prosiectau byw, a gaiff eu llywio'n gymdeithasol, gan gleientiaid o fewn y cwricwlwm, a'r rheiny'n cael eu hategu gan egwyddorion marchnata moesegol a chynaliadwy, yn rhoi profiad dilyn o'r diwydiant i fyfyrwyr sy'n hybu cyflogadwyedd, yn ysgogi gwaith creadigol o ansawdd da, ac yn cryfhau cysylltiadau rhwng dysgu academaidd ac effaith yn y byd go iawn.

4.4 Cyflogadwyedd a arweinir gan yrfaoddd



Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr gan y Brifysgol Agored

Sefydliad: Y Brifysgol Agored

Cyswllt Arweiniol: Jen Harrison

E-bost: jennifer.harrison@open.ac.uk

Rôl: Uwch Reolwr Ymgysylltu â Chyflogwyr

Trosolwg

Mae'r Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr yn cynorthwyo cyflogwyr i wreiddio cynaliadwyedd fel rhan o recriwtio, arferion yn y gweithle a datblygu talent. Mae'n darparu offer a chanllawiau ymarferol i helpu cyflogwyr i adnabod, hybu, a siapio rolau cynaliadwy yn eu sefydliadau, gan alinio â chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol.

Nodau

- + Cynorthwyo cyflogwyr i gydnabod a hybu cynaliadwyedd yn eu cyfleoedd gwaith ac arferion sefydliadol.
- + Integreiddio sgysiau â ffocws ar gynaliadwyedd fel rhan o strategaethau ymgysylltu â chyflogwyr a thrafodaethau datblygiad gyrfa.
- + Amlygu angen myfyrwyr a'u diddordeb mewn rhagolygon gwaith amgylcheddol a chynaliadwy.
- + Sicrhau bod gwaith gyda chyflogwyr yn cyd-fynd ag agendâu cynaliadwyedd a chyflogadwyedd y sefydliad.

Fformat

- + **Fformat:** mae'r pecyn cymorth ar gael i gyflogwyr trwy OpportunityHub, gan gynnwys dau adnodd y gellir eu lawrlwytho.

- + **Cyfranogwyr:** mae'n hygyrch i oddeutu 900 o bartneriaid sy'n gyflogwyr ar draws pob sector a gwlad.
- + **Fe'i datblygwyd gan:** Y Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr a Marchnata a Chyfathrebu o fewn y Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
- + **Adnoddau:** Lletyir y pecyn cymorth ar OpportunityHub.
- + **Costau:** Dim costau uniongyrchol; dim ond amser staff.

Effaith a gwerthuso

Effaith i gael ei mesur trwy adborth cyflogwyr (ansoddol a meintiol), myfyrdodau staff a data ar ymgysylltu. Mae'r metrigau'n cynnwys:

- + ymgysylltiad cyflogwyr a'u defnydd o adnoddau
- + newidiadau mewn swydd ddisgrifiadau a chyfathrebiadau
- + adborth myfyrwyr ar welededd ac apêl rolau cynaliadwy.

Gwersi a ddysgwyd: mae sgysiau adfyfyrion gyda chyflogwyr yn hanfodol. Rhaid i gynaliadwyedd gael ei integreiddio fel rhan o arferion recriwtio craidd, nid cael ei drin fel ychwanegiad. Bydd y mewnwleidiadau hyn yn goleuo datblygiad parhaus y fenter a'i dwf neu leihad posibl yn unol â'r anghenion.

Astudiaethau achos perthnasol eraill:

- + Roedd adnoddau a mentrau cyflogadwyedd-benodol yn cynnwys y gweithdy 'Dod o Hyd i Waith Cynaliadwy' i fyfyrwyr a ddarparwyd gan y tîm cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe a'r gweithdai 'Her Cynaliadwyedd' a ddarparwyd gan Brifysgol Aberystwyth fel rhan o'u Gŵyl Gyrfaoedd.
- + Mae'r 'Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr', 'Dyfodol Boddhaus yn yr Amgylchedd', yr adnodd e-Ddysgu 'Ti, Fi a Dyfodol Cymru', y 'Fforwm Cynaliadwyedd', yr adnoddau fideo digidol 'Adfywiwr: Gyrfaoedd Gwyrdd', 'Digwyddiad Bydd Wyrdd: Nodau Datblygu Mewnol' a 'Ffatri Sgiliau Digidol Medru' a ddarperir gan y Brifysgol Agored i gyd yn enghreifftiau arfer gorau i baratoi rhanddeiliaid amrywiol ar gyfer gallu'r dirwedd i addasu yn y dyfodol.
- + Yn olaf, mae 'Gweithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a 'Sgiliau Cynaliadwy ar gyfer Dyfodol Disgleiriach', 'Prosiect Labordy Byw' a 'Fforwm Gweithredu ar Gynaliadwyedd' Prifysgol Wrecsam hefyd yn cyfrannu'n benodol at gyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol.

Neges Allweddol:

Trwy roi offer ymarferol i gyflogwyr i wreiddio cynaliadwyedd fel rhan o arferion recriwtio a'r gweithle, mae'r Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr yn helpu i symud cynaliadwyedd o fod yn bryder ymylol i fod yn elfen graidd o brosesau penderfynu sefydliadol, gan gryfhau gwelededd rolau cynaliadwy a sicrhau bod ymgysylltiad â chyflogwyr yn cyd-fynd â disgwyliadau cynyddol myfyrwyr a'r gweithlu ehangach.

4.5 Adborth, digwyddiadau, cymorth a chystadlaethau myfyrwyr



Menter Cynaliadwyathon y Brifysgol Agored – gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Sefydliad: Y Brifysgol Agored

Cyswllt Arweiniol: Georgina Hawkins

E-bost: georgina.hawkins@open.ac.uk

Rôl: Rheolwr Ymgysylltu â Chyflogwyr, STEM

Trosolwg

Her ar-lein wythnos o hyd a ddaeth â myfyrwyr STEM ynghyd i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd yn y byd go iawn. Rhoddodd y digwyddiad hwn y cyfle i fyfyrwyr a graddedigion gael profiad ymarferol, cydweithio ar draws disgyblaethau a chreu effaith ystyrlon.

Nodau

- + Cael profiad: gweithio ar brosiect cynaliadwyedd a ddyluniwyd gan gyflogwr neu elusen, gan roi profiad gwerthfawr a allai gael ei amlygu ar CV neu mewn cyfweiliad.
- + Effaith yn y byd go iawn: cyfrannu at brosiectau ystyrlon sy'n ymdrin â heriau cynaliadwyedd yn y byd go iawn.
- + Cydweithio rhyngddisgyblaethol: roedd aelodau'r tîm o ystod o feysydd STEM i feithrin safbwyntiau a datrysiadau amrywiol.
- + Gwaith tîm a rhwydweithio: ymarfer gweithio mewn tîm a chael profiad o rwydweithio gyda chyflogwyr mewn amgylchedd cefnogol.

Fformat

- + Cyfranogwyr: Fe ymgeisiodd 60 o fyfyrwyr am le, cynigiwyd lle i 48 o fyfyrwyr ac fe wnaeth 29 gwblhau wythnos lawn yr her. Roedd dros 55% o'r myfyrwyr a gwblhaodd yn fenywaidd.
- + Partneriaid: Ymddiriedolaeth Final Straw, English Heritage.
- + Adnoddau: fe'i cyflwynwyd ar-lein trwy gyfrwng Microsoft Teams; roedd yn cynnwys mynediad at adnoddau megis twyll-len dysgu drwy brofiad a chanllawiau dan arweiniad cyflogwyr.
- + Costau: dim costau uniongyrchol y tu hwnt i amser staff.

Effaith a gwerthuso

- + Gwerthuso: rhoddodd myfyrwyr sgôr o 8.5/10 i'r profiad, gan ei ddisgrifio fel un "diddorol", "creadigol" a "boddhaus".
- + Roedd yr holl ymatebwyr yn meddwl bod Cynaliadwyathon y Brifysgol Agored yn "eithriadol o effeithiol" i helpu i ymgysylltu â gwahanol agweddau ar gynaliadwyedd. Fe nododd pob un ohonynt fod eu hyder wedi cynyddu ym mhob un o feysydd datblygiad personol [Galluoedd ar gyfer Bywyd RSA](#) gan gynnwys gofal, chwyldrodd a chydweithio.

Gwersi ac argymhellion:

- + Hyd: tybiwyd fod wythnos yn ddelfrydol; argymhellwyd ailadrodd hyn ym mis Mehefin 2026.
- + Meddwl am y dyluniad: gofynnodd y myfyrwyr am ganllawiau paratoadol cliriach; argymhellir sesiwn strwythuredig cyn yr her.
- + Mentora: yn cael ei werthfawrogi ond yn anghyson; awgrymwyd rhagor o amser gyda mentoriaid a chymorth mwy strwythuredig.
- + Technoleg: fe wnaeth y drefn ar Teams achosi dryswch; argymhellwyd fod y ddarpariaeth TG yn cael ei chydlynw a bod cyfranogwyr yn mewngofnodi'n gynnar.
- + Cynwysoldeb: fe wnaeth y fformat ar-lein hi'n bosibl i fyfyrwyr anabl a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol gyfranogi.
- + Datblygiad gyrfa: rhoi anogaeth ar gyfer argymhellion ar LinkedIn a chynnig bathodynau/tystysgrifau digidol lle y bo'n bosibl.

Cymeradwyaeth

“Fel myfyriwr anabl sy’n gaeth i’r tŷ mae hyn wedi rhoi llawer o sgiliau allweddol i mi, gan gynnwys gwaith tîm, meddalwedd a arweinir gan dîm, datblygu prosiect, dylunio gwasanaeth, ffocws amlddisgyblaethol a chyflwyno gwaith.”

“Ar ôl y profiad hwn mae fy hunan-werth wedi tyfu’n aruthrol ac rwy’n meddwl cymaint y mae hyn wedi mynd mor bell â dangos i mi y gallaf gyflawni unrhyw beth os rhoddaf fy meddwl ar waith hyd yn oed trwy adfyd.”

Neges allweddol:

Mae’r Cynaliadwyathon yn dangos sut y gall her cynaliadwyedd sy’n ymwneud â’r byd go iawn, a strwythurwyd yn dda ac a gynhelir yn gyfan gwbl ar-lein gynyddu hyder, sgiliau rhyngddisgyblaethol a chyflogadwyedd myfyrwyr, yn enwedig i’r rhai sy’n wynebu rhwystrau i gyfleoedd traddodiadol, gan hefyd ddwyn effaith ystyrlon ar gyfer sefydliadau partner.



Arolwg o Gynaliadwyedd ymhlith Myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe

Sefydliad: Prifysgol Abertawe.

Cyswllt Arweiniol: Dr Fern Davies, Athro Cysylltiol ac Arweinydd Cynaliadwyedd, Cyfadrn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

E-bost: f.b.davies@swansea.ac.uk

Trosolwg

Menter sefydliadol gan Ysgol Reoli Prifysgol Abertawe yw'r *Arolwg o Gynaliadwyedd a Moeseg ymhlith Myfyrwyr*. Ei nod yw gwerthuso ymgysylltiad myfyrwyr â chynaliadwyedd, newid hinsawdd ac ymddygiad moesegol a'u dealltwriaeth amdanynt yng nghyd-destun eu hastudiaethau a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae'r fenter hon yn ategu ymrwymiad Prifysgol Abertawe i wreiddio egwyddorion Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC) ar draws y cwricwlwm a mesur eu heffaith dros amser. Fe grëwyd ac fe reolir yr arolwg gan Arweinydd Cynaliadwyedd yr Ysgol Reoli gan ddefnyddio Qualtrics, ac mae wedi bod yn rhedeg yn flynyddol ers 2021. Mae'n darparu adborth gwerthfawr sy'n sail i wella'r cwricwlwm ac sydd o gymorth i integreiddio cynaliadwyedd a moeseg fel rhan o addysg cyflogadwyedd.

Nodau a fformat

- + Mesur a gwerthuso ymgysylltiad myfyrwyr â chynaliadwyedd, moeseg a newid hinsawdd a'u dealltwriaeth amdanynt mewn perthynas â'u hastudiaethau a chyflogadwyedd.
- + Adnabod dealltwriaeth myfyrwyr am gynaliadwyedd a materion moesegol.
- + Asesu pwysigrwydd canfyddedig cynaliadwyedd ym mhroffesiynau myfyrwyr yn y dyfodol.
- + Rhoi cymorth i ddylunio'r cwricwlwm trwy fewnwelediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- + Gwella ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

- + Fformat: arolwg blynyddol a ddosberthir i holl fyfyrwyr yr Ysgol Reoli trwy ddolen Qualtrics. Mae'r arolwg yn cynnwys naw cwestiwn meintiol byr gydag adran ddewisol ar gyfer adborth ansoddol.
- + Cyfranogwyr: 76-190 o ymatebion gan fyfyrwyr ers dechrau'r arolwg (disgyblaethau a chefnidiroedd amrywiol).
- + Adnoddau a chostau: Mae gofyn bod â thanysgrifiad i Qualtrics neu danysgrifiad tebyg ac amser staff i gasglu a dadansoddi data.

Effaith a gwerthuso

Deilliannau myfyrwyr:

- + Adnabod cryfderau myfyrwyr a bylchau o ran eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd, moeseg a materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- + Mewnwelediad i ganfyddiad myfyrwyr pa un a yw'r testunau hyn yn berthnasol i'w meysydd pwnc a'u gyrfaedd yn y dyfodol.
- + Cyfradd ymateb gynyddol sy'n dynodi bod ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth yn tyfu ymhlith myfyrwyr
- + Arwydd ble y mae angen i themâu cynaliadwyedd gael eu haddysgu neu eu hintegreiddio ymhellach.
- + Gwella priodoleddau graddedigion trwy sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu'r wybodaeth, y cymwyseddau a'r gwerthoedd sy'n ofynnol i ymdrin â heriau cynaliadwyedd byd-eang yn y gweithle.

Manteision sefydliadol:

- + Gwerthuso a gwella'r cwricwlwm.
- + Tystiolaeth ar gyfer achrediad ac adroddiadau (e.e. AACSB/UN PRME).
- + Aliniad â strategaeth a blaenoriaethau sefydliadol.
- + Gwella priodoleddau a chyflogadwyedd graddedigion.

Gwersi a ddysgwyd:

- + Mae amseriad dosbarthu'r arolwg yn bwysig ac yn effeithio ar y gyfradd ymateb.
- + Mae'n bwysig ystyried cyfnodau pan geir embargo ar arolygon sefydliadol.

Neges allweddol:

Trwy fynd ati mewn modd systematig i gasglu canfyddiadau myfyrwyr am berthnasedd cynaliadwyedd, moeseg a'r hinsawdd i'w hastudiaethau a'u gyrfaoedd, mae arolwg blynyddol Prifysgol Abertawe'n darparu tystiolaeth hanfodol sy'n cryfhau dyluniad y cwricwlwm, yn gwella cyflogadwyedd graddedigion ac yn sicrhau bod dysgu am gynaliadwyedd yn dal i fod yn ymatebol i anghenion myfyrwyr a blaenoriaethau sefydliadol.



Astudiaeth Achos: Hacathon Rhyngddisgyblaethol – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Sefydliad: Prifysgol Abertawe

Cyswllt Arweiniol: Dr Samantha Burvill, Athro Cysylltiol ac Arweinydd Cyflogadwydd, Cyfadrn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

E-bost: s.m.burvill@swansea.ac.uk

Trosolwg

Fe ddatblygodd Prifysgol Abertawe hacathon rhyngddisgyblaethol i ennyn ymgysylltiad myfyrwyr â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, deddfwriaeth sy'n torri tir newydd gan wneud cynaliadwydd a llesiant yn ganolog i bolisi. Mae'r fenter yn adlewyrchu ymrwymiad y brifysgol i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC) ac roedd yn ymdrech gydweithredol rhwng myfyrwyr, partneriaid o fyd diwydiant, a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nodau a fformat

- + **Diben:** codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, arfogi myfyrwyr â sgiliau trosglwyddadwy, ac ennyn syniadau arloesol, a gaiff eu llywio gan gynaliadwydd.
- + **Deilliannau dysgu:** datrys problemau, arweinyddiaeth, gwaith tîm a chyfathrebu, cymhwyso gwybodaeth i heriau yn y byd go iawn, cydweithio rhyngddisgyblaethol a meddwl yn entrepreneuriaidd.
- + **Fformat:** hacathon undydd o 1-7pm. Bu myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau i ddatblygu datrysiadau i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, buont yn cael eu mentora gan staff a phartneriaid allanol a buont yn cyfleu eu syniadau trwy gyflwyniad ffurfiol pum munud o hyd. Fe wnaeth panel o feirniaid a oedd yn cynnwys academyddion ac arbenigwyr o fyd diwydiant benderfynu ar y grwpiau a ddaeth yn gyntaf, ail a trydydd. Cafodd y tîm buddugol ymweld â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal ag ennill hwdis a thalebau a sesiwn gyda thîm menter Prifysgol Abertawe. Fe enillodd y timau a ddaeth yn ail ac yn drydydd hwdis a thalebau.

- + **Cyfranogwyr:** 35 o fyfyrwyr (disgyblaethau a chefnidiroedd amrywiol).
- + **Adnoddau a chostau:** £1,000 (bwyd, argraffu, gwobrau gan gynnwys hwdis a thalebau), er ei bod yn hawdd lleihau hyn yn unol â'r anghenion.

Effaith a gwerthuso

- + Fe gynyddodd ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 24% nes ei bod yn agos at fod yn gydnabyddiaeth gyffredinol.
- + Cafodd 90%+ eu hysbrydoli i ymgysylltu ymhellach â chynaliadwyedd.
- + Rhoddwyd sgôr o 4.5/5 ar y cyfan; disgrifiodd myfyrwyr y digwyddiad fel un a oedd yn “*hwyl, arloesol, anhygoel*”.
- + Fe enillwyd sgiliau newydd, ac fe gafwyd cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio.
- + Cryfhawyd y bartneriaeth gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- + Proffil uwch trwy'r cyfryngau cymdeithasol a diddordeb gan y sector.
- + Fe ysbrydolodd hyn hacathon AU Cymru gyfan yn 2026. A hwnnw'n digwydd ym mis Mawrth 2026, bydd holl Brifysgolion Cymru'n cymryd rhan yr un pryd gyda'r grwpiau buddugol o bob Prifysgol yn dod i Brifysgol Abertawe i gystadlu mewn rownd derfynol fawreddog ym mis Ebrill 2026.

Canmoliaeth

“Roedd yn gwbl anhygoel. Byddwn yn sicr yn argymhell rhagor o hacathonau”

“Datgloi sgiliau newydd – gwaith tîm a chyflwyno”

“Sesiwn ryngweithiol iawn a llawer o hwyl”

“Rwy'n hoff iawn o'r ffaith fy mod wedi gallu rhannu fy syniadau gydag eraill a meddwl am bethau o safbwyntiau gwahanol”

“Roedd y digwyddiad yn gyffrous ac yn hwyl, ond fe wnaeth fy herio hefyd”

“Rwyf wedi dysgu peth wmbredd o wybodaeth trwy integreiddio gydag aelodau eraill o'm grŵp a'n mentoriaid”

Gwersi a ddysgwyd

- + Casglu allbynnau myfyrwyr cyn eu bod yn gadael y digwyddiad.
 - + Caniatáu rhagor o amser ar gyfer cyflwyniadau a myfyrio.
 - + Gwella marchnata cyn ac ar ôl y digwyddiad i hybu ei amlygrwydd.
-


Astudiaethau achos tebyg

Y 'Fenter Ymgysylltiad Cymunedol Creadigol' a'r Her Cynaliadwyedd a letyir gan Brifysgol Aberystwyth, Cynaliadwyathon y Brifysgol Agored a 'Cymdeithas Myfyrwyr Economi Gylchol' a Hacathon Rhyngwladol 'Dyfeisiwch Dros y Blaned' Prifysgol Abertawe. Mae cystadlaethau fel 'Cronfa Crewyr Busnes' y Brifysgol Agored a gwobr John Muir hefyd yn hybu ymgysylltiad â datblygu cynaliadwy, moeseg a datblygiad priodolddau graddedigion.

Neges allweddol

Mae hacathonau'n cynnig ffordd nerthol, seiliedig-ar-ymarfer o wreiddio cynaliadwyedd mewn addysg uwch gan hefyd ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd trwy ddatrys problemau'r byd go iawn, cydweithio ac arloesi.

4.6 Polisiâu, dyfarniadau, cymwysterau a chyllid



Astudiaeth achos: Polisi Gyrfaoedd Moesegol – Prifysgol Aberystwyth

Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth

Cyswllt Arweiniol: Bev Herring, Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

E-bost: bch@aber.ac.uk

Trosolwg

Fe lansiodd Polisi Gyrfaoedd Moesegol Prifysgol Aberystwyth yn 2025, gan ddilyn arweiniad yng Nghynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth, ei Pholisi Cynaliadwyedd a Tuag at Garbon Sero Net 2030. Roedd y polisi wedi'i fwriadu i: sicrhau bod gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd y brifysgol yn cyd-fynd â gwerthoedd moesegol a chynaliadwy ac yn eu hyrwyddo; gwreiddio ystyriaethau moesegol a chynaliadwyedd fel rhan o gyfarwyddyd gyrfaoedd, ymgysylltiad â chyflogwyr, a chyfleoedd ar gyfer lleoliadau; arfogi myfyrwyr â'r hyder i fynd ar drywydd gwaith ystyrlon sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas; a dynodi ymrwymiad sefydliadol i ddatblygu cynaliadwy a deilliannau cyfrifol ar gyfer graddedigion.

Nodau a fformat

- + **Diben:** creu polisi gyrfaoedd sy'n ymlynu wrth egwyddor a safonau craidd ymarfer proffesiynol a nodir yng Nghod Moeseg AGCAS (didueddrwydd, gwrthsefyll tuedd, a grymuso myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus) gan hefyd wneud cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn flaenllaw mewn partneriaethau gyda chyflogwyr a chyfarwyddyd i fyfyrwyr.
- + **Deilliannau dysgu:** mae myfyrwyr yn datblygu'r gallu i werthuso cyflogwyr yn feirniadol, deall materion cynaliadwyedd ac ymarfer teg ym maes recriwtio, gwneud penderfyniadau grymusol a gwybodus ac alinio gwerthoedd personol â dewisiadau gyrfaoel.

- + **Fformat:** mae gan y polisi naw nod sy'n cynnwys: eithrio rhai diwydiannau rhag cydweithio uniongyrchol (e.e. ni fyddwn yn hysbysebu swyddi gyda chwmnïau tanwyddau ffosil, corfforaethau mwynloddio a chynhyrchwyr tybaco yn ganolog); mynd ati'n frwd i hyrwyddo rolau sy'n gwella cynaliadwyedd; gwerthuso cyfleoedd ar gyfer meini prawf arferion teg/gweithio diogel; ymrwymiad i gyllido gweithgareddau cyflogadwyedd sy'n ategu cynaliadwyedd; a chaffael nwyddau cynaliadwy a gweithredu swyddfa ddi-bapur.
- + **Cyfranogwyr:** roedd datblygu'r polisi'n cynnwys cyd-greu gyda myfyrwyr (ac Undeb Aberystwyth), staff a'r Fforwm Cynaliadwyedd, cydweithwyr AU yng Nghymru, a rhanddeiliaid allanol. Caiff y polisi ei gefnogi a'i gymeradwyo gan Reolwyr Gweithredol a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- + **Adnoddau a chostau:** costau ariannol uniongyrchol bach iawn; y prif fuddsoddiad oedd amser staff, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a hefyd hyfforddiant proffesiynol i roi cymorth i ysgrifennu'r polisi.

Effaith a gwerthuso

Deilliannau myfyrwyr:

- + Mwy o ymwybyddiaeth gan fyfyrwyr o faterion moesegol a chynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gyrfaedd: Mae llawer o'n hymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â swyddi, er enghraifft, yn canolbwyntio ar rolau sy'n cyfrannu at yrfaedd cynaliadwy.
- + Mae'n cyfrannu at sail resymegol ar gyfer gweithgareddau a gefnogir yn ganolog sy'n alinio â chynaliadwyedd: Mae Interniaethau AberYmlaen, er enghraifft, yn cael eu cyllido'n llawn ac mae'r tâl amdanynt yn cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Hefyd, digwyddiadau cyllid megis GŵylGyrfaedd a Chynhadledd Cynaliadwyedd Myfyrwyr/Staff Prifysgol Aberystwyth.
- + Mwy o ymgysylltu â gwasanaethau gyrfaedd am eu bod yn alinio â gwerthoedd myfyrwyr. Er enghraifft, yn y dyfyniad hwn, mae un o'r myfyrwyr yn egluro eu rhesymeg dros arwain gweithgaredd Wythnos Werdd '*Fy nod oedd rhoi yn ôl i'r gymuned, codi arian at achos da, a hyrwyddo'r arfer o fyw'n gynaliadwy.*'

Manteision sefydliadol:

- + Cryfhau enw da'r sefydliad fel prifysgol gynaliadwy, a gaiff ei llywio gan werthoedd: cafodd Pobl a'r Blaned, er enghraifft, sgôr o 90% am Yrfaedd Moesegol ac fe gyfrannodd at sgôr uwch yn nhablau cynghrair y prifysgolion yn 2024/2025.
- + Ategu tryloywder gydag ymgysylltiad â chyflogwyr a sefydliadau'n dangos arferion cyfrifol; mae'r polisi, er enghraifft, yn cael ei hyrwyddo i gyflogwyr ar wefan y brifysgol.
- + Mae'n agor sgysiau ac yn cyfrannu at strategaethau sefydliadol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â llywodraethu, cyn-fyfyrwyr, caffael a phrofiad myfyrwyr.

Gwersi a ddysgwyd

- + Mae cefnogaeth Uwch Swyddogion Gweithredol yn hanfodol i roi hyder i ymgodymu â heriau.
- + Mae'n hanfodol cyfleu'n glir sut y caiff didueddrwydd a gwrthrychedd eu cynnal, hyd yn oed wrth gyfyngu ar rai gweithgareddau penodol.
- + Mae hyblygrwydd yn hanfodol: ystyrir bod ein polisi'n ddogfen fyw gyda chyfleoedd blynyddol i archwilio ac adolygu.
- + Mae cyd-greu yn well ond mae hefyd yn anos ymdrin â gwahanol safbwyntiau, profiadau a phryderon.
- + Mae angen ymrwymiad/adnoddau hirdymor er mwyn cael effaith barhaol a gwreiddio'r polisi ar draws yr holl feysydd gwaith.

Neges allweddol:

Gwyddom fod ein myfyrwyr yn pryderu ynghylch safonau moesegol cyflogwyr posibl a bod arnynt eisiau i wasanaethau gyrfaedd adlewyrchu eu gwerthoedd. Wrth ymdrin â heriau polisi gyrfaedd moesegol, ein nod oedd canlyn arni â dull modern, sy'n alinio â gwerthoedd myfyrwyr a chyflawni ein rôl i sicrhau bod deilliannau graddedigion yn cyd-fynd â thrawsnewid cymdeithasol moesegol a chynaliadwy.



Cymhwyster addysg bellach a ddatblygwyd mewn cydweithrediad gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwybodaeth Gyswilt:

Enw: Rachel Dodge

E-bost: rachel.dodge@wjec.co.uk

Sefydliad: CBAC – Cydbwyllgor Addysg Cymru

Rôl: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro, Datblygu Cymwysterau (Cymwysterau a Sgiliau Galwedigaethol).

Math o fenter: cwricwlaidd.

Fformat y gweithgaredd: cymhwyster a gynigir trwy sefydliadau addysg bellach (AB).

Disgrifiad o'r fenter:

Mae'r fenter hon yn golygu datblygu cymhwyster AB a ddyluniwyd fel ei fod yn alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cymhwyster hefyd yn alinio â Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig ac wedi'i fwriadu i arfogi myfyrwyr â gwybodaeth am arferion moesegol a chynaliadwy sy'n berthnasol yn y gweithle. Mae'r ffocws ar addysgu sut i roi'r egwyddorion hyn ar waith yn ymarferol yn hytrach na fformat sy'n ymwneud ag un seminar neu ddarlith. Er bod rhai cymwysterau'n dal wrthi'n cael eu datblygu, mae eraill yn cael eu darparu'n weithredol mewn sefydliadau AB.



Ffigur 4. Llwybr Cymwysterau Cynaliadwyedd. Tystysgrif Cynaliadwyedd yn ei Gyd-destun; Unedau Arnodedig Cynaliadwyedd yn ei Gyd-destun; Newid Hinsawdd; Preswyl; Dyfarniad Cynaliadwyedd ar Waith; Gellir cyfuno'r uned Cynaliadwyedd ar Waith gydag isafswm o 4 allan o 16 uned ddewisol i greu cymhwyster sy'n gyfwerth mewn amser addysgu ag 1 TGAU; Diwydiant a Busnes; Mae Cynaliadwyedd ar Waith yn uned orfodol sy'n rhan o Cynaliadwyedd yn Ymarferol; Cynaliadwyedd yn Ymarferol: Ysgogwyr Newid y Dyfodol; Gweithgaredd Prosiect; Gwastraff, Yr Economi Gylchol a Thrafnidiaeth

Cyfranogwyr a rhanddeiliaid:

- + Myfyrwyr a staff AB: Mae Grŵp Colegau NPTC wrthi ar hyn o bryd yn ei ddarparu mewn rhaglen Cyflwyniad i UG. Maent hefyd yn gobeithio ei fapio i mewn i raglen Darparu Ynni Adnewyddadwy y mae myfyrwyr Peirianeg Lefel 2 a Lefel 3 yn ei chwblhau.
- + Coleg Sir Gâr: mae'n ei beilota gyda grŵp o fyfyrwyr Celfyddydau Perfformio Lefel 1/Lefel 2 – maent wrthi'n trefnu gwibdaith i BBC Cymru i gael taith bwrpasol sy'n canolbwyntio ar arferion cynaliadwy'r BBC. Mae Academi Sgiliau Gwyrdd Coleg Sir Gâr yn gobeithio cyflwyno'r cymhwyster ymhellach yn y flwyddyn academiaidd nesaf.
- + Mae coleg arall yn gobeithio ei ddarparu i fyfyrwyr Peirianeg a Digidol Lefel 2 yn y flwyddyn academiaidd nesaf a bydd coleg arall yn ei ddarparu o fis Medi i fyfyrwyr rhan-amser. Mae gennym hefyd ddarparwr hyfforddiant sy'n ei ddarparu trwy Twf Swyddi Cymru.
- + Aelodau o fwrdd cynghori arbenigol yn rhoi adborth ar ddatblygu cyrsiau.

Aliniad â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy:

Nod y cymwysterau yw hybu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy trwy'r canlynol:

- + gwreiddio gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a NDC y CU
- + rhoi anogaeth i gymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd mewn modd ymarferol mewn cyd-destunau proffesiynol.

Effaith a gwerthuso:

- + Mae rhai cymwysterau wrthi'n cael eu datblygu; mae eraill eisoes yn cael eu darparu mewn sefydliadau AB.
- + Mae llwyddiant yn cael ei arwain gan adborth bwrdd cynghori arbenigol.
- + Mae deilliannau allweddol yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o arferion cynaliadwy ymhlith myfyrwyr a sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn alinio â fframweithiau cynaliadwyedd cenedlaethol a byd-eang.

Mewnwelediadau allweddol a gwersi a ddysgwyd:

- + Mae adborth parhaus gan y bwrdd cynghori'n hanfodol i fireinio cynnwys cyrsiau.
- + Mae integreiddio ffyrdd ymarferol o'i rhoi ar waith yn y gweithle'n gwella perthnasedd addysg cynaliadwyedd.
- + Mae datblygiad parhaus yn sicrhau bod cymwysterau'n dal i fod yn gyfredol a chael effaith fawr.

Astudiaethau achos tebyg

Adnabuwyd polisïau fel rhai sy'n bwysig ar gyfer cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol, gydag enghreifftiau penodol yn cynnwys y Polisi Gyrfaoedd Moesegol ym Mhrifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Wrecsam. Mae'r rhain yn rhoi eglurder i staff, myfyrwyr a sefydliadau allanol mewn perthynas â gyrfaoedd a chyflogadwyedd ac yn dangos eu bod yn alinio â gwerthoedd moesegol a chynaliadwy.

Mae dyfarniadau a chymwysterau megis y dystysgrif ac e-fathodyn Hyfforddiant Hinsawdd a Charbon Ar-lein allgyrsiol ym Mhrifysgol Abertawe a chymwysterau addysg bellach CBAC ar gyfer Cynaliadwyedd sy'n cwmpasu'r NDC a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gwneud cyfraniad pellach, gyda chyllid megis Cronfa Crewyr Busnes y Brifysgol Agored a 'Chronfa Cymorth Cyflogadwyedd' Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rhoi cymhelliad ychwanegol i ymgysylltu â mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

Neges allweddol:

Trwy wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a NDC y CU fel rhan o gymwysterau ymarferol, galwedigaethol, mae'r fenter hon yn sicrhau bod myfyrwyr AB yn ennill sgiliau cynaliadwyedd perthnasol, cymhwysol sy'n cryfhau eu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy'n uniongyrchol, gan sicrhau bod hyfforddiant yn alinio â blaenoriaethau cenedlaethol, anghenion gweithleoedd, ac arferion esblygol diwydiant.

4.7 Addysg weithredol



Micro-gymhwyster y Brifysgol Agored: Trawsnewid eich sefydliad er mwyn cynaliadwydd

Sefydliad: Y Brifysgol Agored

Cyswllt Arweiniol: Dr Victoria Hands

E-bost: victoria.hands@open.ac.uk

Rôl: Cyfarwyddwr Cynaliadwydd

Trosolwg

Datblygodd y Brifysgol Agored (Y BA) ficro-gymhwyster ar gyfer y rhai sy'n dymuno uwchsgilio i weithredu yn eu sefydliad er mwyn cynaliadwydd. Mae'n cyd-fynd â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Strategaeth Dysgu a Byw (2022-2027)* y Brifysgol Agored. Mae'r cwrs wedi'i seilio ar y model "Ffaith, Teimlo, Gweithredu", a addaswyd o'r fframwaith "Pen, Calon, Llaw" ac mae'n cynnwys:

- + tair wythnos yn archwilio'r polygreisisau byd-eang (hinsawdd, natur, tegwch)
- + pum wythnos yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ar gyfer cynaliadwydd (yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- + pythefnos i gwblhau asesiad: cynllun gweithredu cryno 1,000 o eiriau gyda myfyrdod a rhesymeg 500 o eiriau.

Nodau a fformat

Mae deilliannau dysgu'r cwrs yn cynnwys: ei gwneud yn bosibl cymhwyso dysgu ar gyfer cynaliadwyedd yn y gweithle trwy ystyried ffaith wyddonol (sy'n gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy) a myfyrwyr ynghylch gwerthoedd personol a nodweddion arwain a datblygu'r rhain (sy'n gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Mewnol). Mae cymhwyso trwy gynllun gweithredu mewn lleoliadau busnes a sefydliadol yn galluogi uwchsgilio ymarferol i ddigwydd. Mae myfyrwyr yn astudio'n anghydamserol ac yn ymgysylltu â chynnwys wythnosol sy'n rhoi sylw i arloeswyr cynaliadwyedd, yn cwblhau tasgau portffolio ac yn cyfranogi mewn dysgu gyda chymheiriaid. Mae'r cwrs, a ddarperir dros 100 o oriau, yn hybu ymwybyddiaeth ofalgar, cyswllt â natur ac arweinyddiaeth a arweinir gan werthoedd. Mae myfyrwyr yn ennill tystysgrif ddigidol a 10 credyd ar ôl llwyddo.

Effaith a gwerthuso

- + **Cyrhaeddiad ac ymgysylltiad:** mae dros 600 o fyfyrwyr wedi cwblhau'r cwrs, gyda 57% ar gyfartaledd wedi cyflwyno gwaith i'w asesu a 95% wedi llwyddo.
- + **Cydweithio i ddylunio'r cwrs:** fe gyflogwyd pump o bobl ifanc dan 25 oed o bedwar cyfandir fel mentoriaid ôl-weithredol i awdur y cwrs yn ystod y cyfnod dylunio a datblygu. Cafodd y cwrs ei ddylunio gyda mewnbwn gan ddeg arweinydd cynaliadwyedd allanol, ochr yn ochr â staff academiaidd a chynhyrchu'r Brifysgol Agored.
- + **Cymhwyso'n ymarferol:** mae myfyrwyr yn creu cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra ar gyfer eu cyflogwyr, gan gyfrannu at nodau cynaliadwyedd sefydliadol.
- + **Dysgu gyda chymheiriaid:** mae 40% o'r myfyrwyr yn ymgysylltu'n weithredol â fforymau trafod, gan feithrin cymuned a gwydnwch rhag eco-orbryder.
- + **Gwerthuso:** fe'i hadolygir yn annibynnol gan Athrofa Technoleg Addysgol y Brifysgol Agored. Mae'r cwrs bellach yn rhan o lwybr i mewn i'r rhaglen MBA.
- + **Adborth myfyrwyr:** mae canmolïaeth yn amlygu mwy o hyder, grymusiad, a sgiliau ymarferol ar gyfer arweinyddiaeth ar gynaliadwyedd.
- + **Incwm a grëwyd:** dros £300,000.

Gwersi a ddysgwyd:

- + Sicrhau bod deunyddiau a chynnwys yn dal i fod yn gyfoes.
- + Gwreiddio dysgu gyda chymheiriaid i hwyluso cydweithio a rhoi cymorth i fagu hyder.

Canmoliaeth

“Yr hyn a weithiodd yn dda i mi oedd yr amgylchedd dysgu cefnogol. Fe wnaeth y gallu i ryngweithio â’r cymheiriaid yn y fforymau trafod...fy annog go iawn i ofyn rhagor o gwestiynau a chadw meddwl agored wrth archwilio syniadau newydd. Fe fwyneais hefyd fod amser wedi’i neilltuo ar gyfer “ymarfer dyddiol mewn ymwybyddiaeth ofalgar” – fe archwiliais yr ymarfer hwn gryn dipyn wrth astudio. Fe gynorthwyodd hyn fi i gadw fy mhwyll a bod yn bresennol yn ystod amseroedd astudio, gwaith, ac wrth fod yn fam hefyd.”
Arbenigwr Adfer Adnoddau, 2025

“Fe roddodd y cwrs hwn imi’r offer a’r fframweithiau y tu hwnt i gydymffurfio, [ac] ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol y tu hwnt i’r sgiliau technegol ac amgylcheddol yn enwedig yr agweddau cymdeithasol/llesiant cymdeithasol/datblygiad dynol. Canfûm fod dysgu wrth ein pwysau ein hunain a’r enghreifftiau ategol yn gynnwys da, gyda heriau wythnosol i atgyfnerthu gwersi.”
Rheolwr Perfformiad ac Adrodd Amgylcheddol, 2025


Astudiaethau achos perthnasol eraill:

Bydd cyrsiau ar-lein ac e-ddysgu fel hwn ac eraill, megis ‘Cwrs Hinsawdd a Charbon’ Prifysgol Abertawe a ‘Ti, Fi a Dyfodol Cymru’ gan y Brifysgol Agored yn amhrisiadwy wrth i dirwedd ddigidol addysg drydyddol esblygu.

Neges allweddol:

Mae’r micro-gymhwyster hwn yn dangos sut y gall dysgu hyblyg, a arweinir gan werthoedd ac sy’n canolbwyntio ar ymarfer rymuso gweithwyr proffesiynol i hybu cynaliadwydd yn eu sefydliadau, gan gyfuno dealltwriaeth wyddonol, datblygiad sgiliau arwain personol, a chynllunio gweithredadwy i greu effaith mewn gweithleoedd go iawn ac arweinwyr cynaliadwydd hyderus.

4.8 Partneriaethau



In Wales we are doing things differently.

For people, for the planet, for now, and for the future.

Ti, fi a dyfodol Cymru/You, me and the future of Wales

Sefydliad: Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cyswllt Arweiniol: Rebecca Falvey

E-bost: rebecca.falvey@open.ac.uk

Rôl: Rheolwr Partneriaethau

Trosolwg

Mae'r adnodd e-ddysgu hwn, a gomisiynwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'i fwriadu i hybu dinasyddiaeth weithredol a dealltwriaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae wedi'i fwriadu i fod yn hygyrch, yn weledol ac i ddangos sut y mae'r Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio yn berthnasol i fywyd pob dydd, cymunedau a gweithleoedd. Fe grëwyd yr adnodd ar y cyd gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru ac fe'i lansiodd ar OpenLearn ym mis Ebrill 2025 yn nigwyddiad 10 mlwyddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir cael mynediad ato yn rhad ac am ddim ac mae ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac yn iaith Arwyddion Prydain.

Nodau a fformat

Mae'r adnodd yn cyfrannu at gael mwy o ddealltwriaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio. Mae 56 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ddarostyngedig i'r Ddeddf a rhaid iddynt, yn ôl y gyfraith, ymlynu wrth y Nodau a dangos sut y maent yn gwneud hynny. Mae'r ganran o'r gweithlu a gyflogir gan y sector cyhoeddus yn uchel yng Nghymru felly bydd deall y Ddeddf a'r Nodau'n fanteisiol i raddedigion sy'n chwilio am waith yng Nghymru. Mae'r Ffyrdd o Weithio hefyd yn sgiliau cyflogadwyedd rhagorol ac mae cysylltiad agos rhwng y Ddeddf a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r nodau datblygu mewnol. Hefyd, mae pob sector yng Nghymru'n defnyddio'r Ddeddf i'w cefnogi yn eu gwaith cynaliadwyedd ac felly bydd dealltwriaeth dda am y Ddeddf o fudd i raddedigion ym mha bynnag yrfa y byddant yn ei dilyn.

- + **Fformat:** adnodd eDdysgu ar-lein.
- + **Datblygwyd gan:** Y Brifysgol Agored yng Nghymru – Rheolwr Partneriaethau a 2 Grëwr Cynnwys Digidol.
- + **Partneriaid:** Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru.
- + **Adnoddau:** lletyir yr adnodd ar OpenLearn.
- + **Costau:** amser staff a chostau cyfieithu yn unig.

Effaith a gwerthuso

O ran y sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2025, roedd yr adnodd wedi cael 704 o ymwelwyr unigryw ar draws fersiynau Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain. Mae'n dod yn boblogaidd ledled Cymru, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru'n ei ymgorffori fel rhan o raglenni sefydlu staff newydd. Cyfeiriwyd ato hefyd yn un o sesiynau llawn Senedd Cymru gan Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol:

“Rwyf wedi arwain cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at fanteision y Ddeddf ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac eraill i ailymrwymo i'r Ddeddf, felly mae heddiw yn gyfle, onid ydyw, i ni a chyrrff cyhoeddus ailymrwymo i'r Ddeddf. A rhan o'r cynllun hwnnw yw creu prosiect hanes llafar i gasglu a chyflwyno straeon nid yn unig am greu a gweithredu'r Ddeddf, ond hefyd casglu myfyrdodau unigol ynghylch y gwahaniaeth y mae'r Ddeddf wedi'i wneud mewn enghreifftiau go iawn. Fe wnaethom weithio gyda'r Brifysgol Agored a swyddfa comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol i ddatblygu pecyn e-ddysgu sydd bellach ar gael i'r cyhoedd, o'r enw 'Ti, Fi a Dyfodol Cymru', ac rydym wedi cyflwyno'r diwrnod gweithredu cenedlaethol hwnnw i ganolbwyntio sylw ar y Ddeddf ar draws a thu allan i Gymru, o'r enw 'Goleuo'r dyfodol', yr wyf eisoes wedi sôn amdano. Ac, wrth gwrs, mae'n bwysig fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn eu huwchgynhadledd weithredu ar y nawfed ar hugain, wedi ymgysylltu ag arweinwyr y sector cyhoeddus, i weld eu hymroddiad a'u trylwyredd wrth iddynt gyflawni eu cynlluniau llesiant.”

Roedd dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth a chyd-greu yn hanfodol i daro'r cywair iawn a chyflawni'r cynnwys cywir. Hwn oedd adnodd cyntaf y Brifysgol Agored yn Iaith Arwyddion Prydain, gan ddarparu profiad gwerthfawr o gydweithio gyda chymuned Pobl Fyddar a chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain.

[You, me and the future of Wales | OpenLearn – Y Brifysgol Agored](#)

[Ti, Fi a Dyfodol Cymru | OpenLearn – Y Brifysgol Agored](#)

Astudiaethau achos tebyg:

Disgwylir y bydd cyrsiau e-ddysgu megis 'Cwrs Hinsawdd a Charbon' Prifysgol Abertawe a 'Ti, Fi a Dyfodol Cymru' gan y Brifysgol Agored yn amhrisiadwy wrth i dirwedd ddigidol addysg drydyddol esblygu, ochr yn ochr â micro-gymhwyster y Brifysgol Agored 'Trawsnewid eich Sefydliad er mwyn Cynaliadwyedd'.

Neges allweddol:

Trwy gynnig adnodd e-ddysgu hygyrch, mewn tair iaith sy'n datgyfrinio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r fenter hon yn cryfhau dealltwriaeth y cyhoedd, yn ategu cyflogadwyedd yn sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru, ac yn dangos sut y gall cyd-greu a dylunio cynhwysol estyn cyrhaeddiad a pherthnasedd addysg cynaliadwyedd.

4.9 Adnoddau cyflogadwyedd



Datblygu a chefnogi staff: Pecyn Cymorth ADC Cynaliadwyedd a Gweithdy Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Sefydliad: Prifysgol Caerdydd

Awdur: Dr Laura Barritt

Menter: Gwella Dysgu ac Addysgu, Datblygu a chefnogi staff: 'Thema Pecyn Cymorth ADC – Cynaliadwyedd' a Gweithdy DPP 'Archwilio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy: Cychwyn sgysrsiau'.

Disgrifiad:

Roedd y pecyn cymorth i staff yn rhan o fenter ehangach a oedd yn ymwneud â datblygu a gwella'r dysgu a'r addysgu ar draws y brifysgol. Crëwyd yr adran cynaliadwyedd i ategu, gwella a datblygu dealltwriaeth staff am gynaliadwyedd a'r modd y maent yn rhoi cynaliadwyedd ar waith yn eu hymarfer addysgu a'r profiadau dysgu y maent yn eu meithrin ar gyfer myfyrwyr a chyda hwy.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys testunau byrion, delweddau, tasgau, rhestrau a dolenni ac mae wedi'i fwriadu i alluogi staff i gael mynediad at bynciau ac adnoddau allweddol y mae eu hangen arnynt yn gyflym ac yn rhwydd, i syntheseiddio negeseuon a phwyntiau allweddol gan hefyd eu cynorthwyo i wneud cysylltiadau rhwng y pynciau a'r themâu yr ymdrinnir â hwy yn yr adnodd. Gellir defnyddio'r 'cynghorion campus', 'cwestiynau allweddol' a 'datganiadau' fel deunydd ysgogi ar gyfer myfyrio ac fel modd i amlygu arferion effeithiol y gallai staff fod yn dymuno eu haddasu neu eu mabwysiadu.

Roedd y gweithdy DPP 'Archwilio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy: Cychwyn Sgysrsiau' yn debyg. Fe'i crëwyd i gychwyn sgysrsiau ynglŷn â chynaliadwyedd, gan ei wneud yn gysyniad mwy pendant i ymgysylltu ag ef a'i gysylltu ag ymarfer. Roedd hyn hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â Phriodoleddau Graddedigion Prifysgol Caerdydd ac fe

gwblhaodd staff dasg yn paru'r Cymwyseddau Cynaliadwyedd â'r Priodolddau Graddedigion yn y sesiwn. Mae gan y pecyn cymorth gyrhaeddiad eang ar draws y brifysgol ac mae bellach hefyd ar ffurf ffynhonnell agored. Roedd y gweithdy DPP yn gadarnhaol, ond nid oedd presenoldeb yn uchel iawn i ddechrau. Fe gynhaliom ni ddwy sesiwn gyda rhyw chwe aelod o staff yn bresennol ynddynt ar y cyfan.

Aliniad â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy:

Mae'r ddau'n ymgysylltu'n uniongyrchol â rhoi cymorth i ddatblygu graddedigion moesegol a chynaliadwy - gan ymgysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymwyseddau Cynaliadwyedd UNESCO (UNESCO 2017; QAA Advance HE 2021) a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Mewnwelediadau allweddol a gwersi a ddysgwyd:

Roedd rhai aelodau o staff yn ansicr sut i ymgysylltu â chynaliadwyedd i ddechrau gan ei fod i'w weld yn gysyniad gweddol haniaethol ac amwys. Fodd bynnag, wrth i'r ymgysylltiad ag enghreifftiau mwy ymarferol ddatblygu, fe gynyddodd eu dealltwriaeth, ac roedd staff yn gallu cyd-destunoli'r cysyniad i'w rolau yn eu gwahanol gyd-destunau. Roedd rhai'n teimlo'n frwdfrydig a goleuedig iawn erbyn diwedd y sesiwn DPP ac maent wedi cydweithio ymhellach gydag aelodau eraill o staff o ganlyniad.

O ran y pecyn cymorth, mae staff wedi cael yr astudiaethau achos a'r ysgogiadau myfyriol yn ddefnyddiol iawn. Mae'r pecyn cymorth yn fyw, felly mae wastad yn datblygu, ac rydym bellach â'n bryd ar ychwanegu mwy yn yr adran dysgu ac addysgu ynghylch deilliannau dysgu, labordai byw a strategaethau addysgegol.

Gwersi allweddol a ddysgwyd

Symleiddiwyd yr iaith cynaliadwyedd gymaint â phosibl a defnyddiwyd enghreifftiau pendant gyda chymau y gellir eu rhoi ar waith yn hawdd. Efallai fod angen ail-fframio rhai elfennau o gynaliadwyedd i rai aelodau o staff ddeall ei bwysigrwydd a sut y gallant ymgysylltu ag ef yn bwrpasol yn eu gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, rydym wedi ail-fframio gweithdy newydd a'i alw'n 'addysgeg ar gyfer y dyfodol' yn hytrach nag 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Esblygol ar waith' a oedd yn weithdy nas cynhaliwyd oherwydd niferoedd cofrestru isel.

Astudiaethau achos/enghreifftiau tebyg

Mae hyfforddiant a chymorth i staff yn hanfodol i gyfrannu at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Roedd enghreifftiau a adnabuwyd yn y canfyddiadau'n cynnwys gweithdy datblygu staff i ategu 'Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a'u 'Gweithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd', 'Cwrs Canvas Gwreiddio Cynaliadwyedd ac Argyfwng yr Hinsawdd mewn Cwricwla Addysg Uwch' a 'Chwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon' Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe. Mae'r digwyddiad 'Bydd Wyrdd: Nodau Datblygu Mewnol' i staff a'r 'Cardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu' yn ôl y fframwaith Dylunio Cyfrifol (RBD) gan y Brifysgol Agored yn gyfraniadau pellach at hyfforddiant staff i hybu cynnwys a sgiliau perthnasol mewn addysg.

Neges allweddol:

Mae gwneud cynaliadwyedd yn ddealladwy, ymarferol ac uniongyrchol berthnasol i addysgu pob dydd yn grymuso staff i'w wreiddio'n hyderus yn eu hymarfer. Mae iaith glir, enghreifftiau pendant ac offer hygyrch fel pecyn cymorth ADC a gweithdy DPP Caerdydd yn hanfodol i feithrin gallu staff ac, yn y pen draw, meithrin graddedigion moesegol sy'n meddwl am gynaliadwyedd.

5 Mapio sgiliau CMaCh

Mae pob un o'r astudiaethau achos a gasglwyd sy'n cynrychioli cyflogadwydd moesegol a chynaliadwy ar draws Prifysgolion Cymru'n datblygu ac yn galluogi datblygiad amryw sgiliau a chymwyseddau mewn myfyrwyr a staff. Felly, fe grëwyd y Matrics Sgiliau CMaCh canlynol i'w gwneud yn bosibl adnabod sgiliau a chymwyseddau penodol, sut i'w cymhwyso yng nghyd-destun AU a'r astudiaethau achos sy'n amlygu datblygiad y sgil yma ar waith. Mae llawer o'r rhain yn cysylltu â chymwyseddau allweddol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

Maes sgiliau	Sgiliau a chymwyseddau	Sut i'w cymhwyso yng nghyd-destun AU	Enghreifftiau o astudiaethau achos
Llythrennedd cynaliadwyedd/ Meddwl rhag blaen	- Deall y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Ymwybyddiaeth o newid hinsawdd - Effaith amgylcheddol	- Gwreiddio cynaliadwyedd ar draws disgyblaethau. - Defnyddio heriau'r byd go iawn i gyd-destunoli dysgu.	"Adennill Paradwys" PCDDS - MSc Ffisiotherapi Caerdydd - Hacathon Abertawe
Rhesymu moesegol/ Cymhwysedd normadol	- Gwerthuso cyflogwyr yn feirniadol - Dewisiadau gyrfaol a arweinir gan werthoedd - Ymwybyddiaeth o ymarfer teg	- Arwain myfyrwyr i alinio gwerthoedd personol â llwybrau gyrfa. - Siapio fframweithiau polisi moesegol.	- Polisi Gyrfaoedd Moesegol Aberystwyth - Pecyn Cymorth Cyflogwyr y Brifysgol Agored
Sgiliau gyrfa a chyflogadwyedd	- Rheoli prosiectau - Marchnata digidol - Cynllunio ymgyrchoedd - Gwella CV	Defnyddio briffiau byw a phrosiectau sy'n gysylltiedig â diwydiant i feithrin sgiliau ymarferol.	"Marchnata Er Daioni" Abertawe - PloCC Bangor - Cynaliadwyathon y BA
Cydweithio a gwaith tîm	- Dysgu rhyngbroffesiynol - Rhwydweithio - Datrys problemau mewn grŵp	Dylunio modiwlau a digwyddiadau rhyngddisgyblaethol.	- Symposiwm MSc Caerdydd - Hacathon Abertawe - Cynaliadwyathon y BA

Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

		Meithrin cydweithio rhwng cymheiriaid a chydweithio allanol.	
Cyfathrebu creadigol	- Dylunio gweledol - Cyflwyno - Creu cynnwys - Siarad yn gyhoeddus	- Cefnogi asesu trwy allbynnau creadigol. - Datblygu hyder myfyrwyr i gyfathrebu.	- Symposiwm MSc Caerdydd "Marchnata Er Daioni" Abertawe - Gŵyl Gyrfaoedd Aberystwyth
Meddwl trwy systemau	- Cysylltu materion lleol/byd-eang - Dadansoddi rhyngddisgyblaethol - Datrys problemau'n gyfannol	- Rhoi anogaeth ar gyfer meddwl traws-sectoraidd. - Integreiddio themâu iechyd y blaned a chyfiawnder cymdeithasol.	- PloCC Bangor - Modiwl Cynaliadwyedd PCDDS - Micro-gymhwyster y BA
Dysgu drwy brofiad/Meddwl yn feiniadol	- Datrys problemau'r byd go iawn - Hacathonau - Dysgu sy'n seiliedig ar heriau	- Hwyluso profiadau dysgu dilyn. - Defnyddio partneriaethau allanol ar gyfer ymgysylltu dyfnach.	- Hacathon Abertawe - Cynaliadwyathon y BA - Prosiectau Grŵp MSc Caerdydd
Datblygiad personol/ Hunanymwbyddiaeth/ Cymhwysedd normadol	- Myfyrio - Gwydnwch - Arwain - Chwilfrydedd	- Sgaffaldio ymarfer adfyryiol. - Hybu twf personol trwy adborth a mentora.	- Micro-gymhwyster y BA - Asesiad Adfyryiol PCDDS - Pecyn cymorth DPP Caerdydd
Ymwbyddiaeth o bolisi a llywodraethu/Gweithredu strategol	- Deall deddfwriaeth - Aliniad strategol - Gwerthoedd sefydliadol	Alinio canllawiau'r cwricwlwm a chyfarwyddyd gyrfaoedd â pholisi cenedlaethol (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, targedau Sero Net).	- Hacathon Abertawe - Polisi Gyrfaoedd Aberystwyth - Adnodd "Dyfodol Cymru" y BA

Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

Datblygiad staff/Gweithredu strategol	• Addysgeg ADC • Defnyddio pecynnau cymorth • Arloesi o ran y cwricwlwm	• Darparu DPP ar gynaliadwyedd a moeseg. • Defnyddio pecynnau cymorth i gynorthwyo i wella'r cwricwlwm.	• Pecyn cymorth ADC Caerdydd • Cwrs Canvas Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe • Cardiau Dylunio Dysgu'r BA
---------------------------------------	---	---	---

6 Moeseg a chynaliadwyedd yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Mae gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol yn gyfarwydd â gweithio mewn gofod moesegol cymhleth; gan gynorthwyo defnyddwyr ein gwasanaethau i ddod o hyd i waith boddhaus mewn marchnadoedd llafur sy'n esblygu'n barhaus. Mae egwyddorion moesegol fel didueddrwydd a ffocws ar werthoedd personol cleient yn dra dealliedig gydag arferion gorau'n cael eu hyrwyddo gan gyrff proffesiynol. Fodd bynnag, mae ffocws bellach yn newid yng ngoleuni disgwyliadau myfyrwyr, tablau cynghrair sydd â ffocws ar gynaliadwyedd a nodau cynaliadwyedd byd-eang, heb sôn am ansefydlogrwydd geowleidyddol cynyddol a'r argyfwng hinsawdd parhaus.

Mae disgwyliadau mwy newydd ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yn fwyaf eglur yn yr ymgyrchoedd a'r fethodoleg tabl cynghrair gan People & Planet, sy'n darparu sgoriau a gaiff eu gwreiddio mewn tablau cynghreiriau prifysgolion eraill mwy cyffredinol. Mae llawer o ofynion People & Planet yn annadluel, gan hybu tryloywder ac atebolrwydd. Un o fanteision mwyaf yr ymgyrchu hwn i fyfyrwyr a graddedigion fu cyflwyno Polisiâu Gyrfaoedd Moesegol mewn nifer o sefydliadau, gan roi gwybodaeth eglur i ddefnyddwyr gwasanaethau am arferion moesegol a chynaliadwy'r gwasanaeth.

Mae targedau eraill o dabl cynghrair People & Planet wedi codi cwestiynau ar draws y sector. Dim ond os yw sectorau penodol (tanwydd ffosil, mwyngloddio, arfau a thybaco) yn cael eu "sgrinio allan" o gyfleoedd recriwtio myfyrwyr a graddedigion y gall 75% o sgôr gwasanaeth gyrfaoedd gael ei gyflawni. Er y cydnabyddir bod nifer o fyfyrwyr yn cefnogi'r targedau hyn, fe leisiwyd pryderon ynglŷn â sut allai hyn leihau cyfleoedd i'r rhai sy'n ystyried cyflogaeth yn y sectorau hyn. Mae heriau taro cydbwysedd rhwng didueddrwydd mewn cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a cheisiadau i sgrinio mynediad sectorau penodol at gyfleoedd recriwtio wedi cael eu dwyn i sylw hefyd. Dim ond un elfen o berthnasodd nifer o sefydliadau â phrifysgolion yw recriwtio, ac fe all eu heithrio o rai cyfleoedd penodol wneud perthnasodd ehangach yn fwy o her i'w rheoli.

Hyd yma, cyfyngedig fu effaith ymgyrchoedd i sgrinio sectorau allan. O dabl cynghrair People & Planet 2024/25, roedd dros 75% o brifysgolion wedi ymrwymo i dynnu cwmnïau tanwyddau ffosil allan o'u portffolios buddsoddi, tra bo dim ond 20% yn eithrio sectorau o gyfleoedd recriwtio. Fel y mae'r pecyn cymorth hwn yn ei ddangos, arfer ehangach gan wasanaethau gyrfaoedd sydd o fudd i fyfyrwyr a graddedigion ar hyn o bryd yw hybu cyflogaeth gynaliadwy trwy hyfforddiant sgiliau, digwyddiadau, dysgu drwy brofiad a chydweithio gyda staff academiaidd i wreiddio cynnwys yn y cwricwlwm.

Gydag arferion recriwtio'n newid byth a beunydd i ddiwallu anghenion cyflogwyr o ran talent, bydd heriau sy'n wynebu gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd yn esblygu hefyd. Trwy daro cydbwysedd rhwng disgwyliadau myfyrwyr ac egwyddorion didueddrwydd, hybu cynwysoldeb ac amrywiaeth mewn recriwtio a gwreiddio sgiliau cyflogadwyedd ar draws y cwricwlwm, bydd gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd yn dal i fod yn allweddol i gyflawni gyrfaoedd boddhaus, gydol oes i fyfyrwyr a graddedigion.

Llais myfyrwyr

Cyfweliad gyda Chloe Griffiths,
Ecologydd Ymgynghorol a myfyrwraig
PhD sy'n ymchwilio i gymhellion ar gyfer
Gwyddor Dinasyddion.
Prifysgol Aberystwyth.

***“gadael y byd yn
well nag y'i
cawsoch”***

Ble ddechreuodd eich diddordeb mewn cynaliadwyedd?

Cefais fy magu gyda set o werthoedd a
oedd yn cynnwys yr angen i fod yn
ddefnyddiol; gadael y byd yn well nag y'i
cawsoch, sy'n ffordd arall o siarad am
gynaliadwyedd, onid yw? Yna fe wnes i
radd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac
fe'm cyflwynwyd i weithiau ffeministaidd;
roedd hynny fel gweld y goleuni am y tro
cyntaf, fel menyw ifanc, fe wnaeth amlygu
anghyfiawnder i mi go iawn.

Yn ddiweddarach, yn ystod cyfnod o
ystyried beth i'w wneud â'm bywyd, fe
ddechreuais wirfoddoli mewn Canolfan i
Fenywod, rhyw fath o ffeministiaeth
gymhwysol, fel modd i fynegi fy moeseg
fy hun yn ymarferol. Deuthum ar draws
cyfle i wirfoddoli ar brosiect garddio
organig a oedd yn canolbwyntio ar
bermaddiwylliant ac fe roddodd imi
system werthoedd gymhwysol, o
ddefnyddio egwyddorion ar gyfer dylunio
heb wastraff, gweld popeth fel adnodd.
Byth ers hynny, rwyf wedi teimlo'n llawer
mwy o berson cymuned.

Ble ydych chi'n gweld y gorgyffyrddiadau rhwng cyflogadwyedd a chynaliadwyedd?

Os ydym yn meddwl am gyflogadwyedd
fel y pecyn unigryw o sgiliau sydd gan
bob person, mae gennyf fi set o feini
prawf ar gyfer yr hyn sy'n foesegol yn fy
nhyb i. Rwy'n annog pobl ifanc i fesur
cyfleoedd gwaith yn ôl eu set hwy eu
hunain o feini prawf; gall y rhai sydd fwyaf
hyderus hyd yn oed ystyried cael effaith
foesegol gadarnhaol ar gwmni. Ond rwyf
hefyd yn ymwybodol bod hynny'n
foethusrwydd nad yw pawb yn ei gael;
gall pobl ddiweddu mewn swyddi na
fyddent wedi'u dewis, heb unrhyw rym a
heb unrhyw ddylanwad.

Rwy'n amlygu bod gan bobl lais a bod eu
llais wastad yn werth ei godi, oherwydd
dydyn ni byth yn gwybod pwy allai fod yn
ein clywed. Ac os ydych chi'n ddigon
dewr i godi eich llais, yna weithiau mae
hynny'n grymuso pobl eraill i ddweud
“Felly rwyf fi'n teimlo hefyd”. Felly mae
bod yn ymwybodol o'ch moeseg yn
bwysig ac, os yw'n ddiogel gwneud
hynny, mae'n ddefnyddiol rhannu'r
rheswm dros wneud y dewisiadau rydych
chi'n eu gwneud.

***“mae wastad yn anodd
pan fo'n rhaid i chi
daflu'r goleuni arnoch
chi eich hun, onid
yw?”***

Allwch chi rannu adeg pan deimloch chi bosibiliadau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy'n fwyaf byw?

Rwyf wedi ysgrifennu cynigion am gyllid gyda sefydliadau partner fel fy mod yn gallu rhedeg gwasanaethau ecolegol, sef arolygon bywyd gwyllt gyda'r cyhoedd fel arfer. I ddechrau, roeddwn i'n meddwl "ble wnaif fi redeg y gwasanaethau hyn?" Mae gen i gar, fe allwn i eu rhedeg unrhyw le yn y wlad. Ac yna meddyliais, a dweud y gwir, na, mae angen i mi ddylunio gyrfa i mi fy hun lle nad oes rhaid i mi yrru. Mae gan yr ardal lle rwy'n byw sgôr isel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, felly roedd meddwl am symud fy ngwaith i rywle arall yn teimlo'n anghywir. Ro'n i'n teimlo ei fod yn beth mwy cyfrifol lleoli fy hun yn fy nghymuned fy hun, lle nad oes angen i mi symud allan o'm cymuned ymarfer fy hun.

Sut allem ni ailfeddwl am gyflogadwyedd fel ei fod yn ategu llwyddiant unigol a chydgyfrifoldeb am genedlaethau'r dyfodol yn well?

Ceir TGAU newydd yn awr ar gyfer Astudiaeth Natur, a lansiwyd eleni. Mae arnom angen y math hwnnw o ddull o ddyddiau cynharaf ein haddysg, sef atgoffa a goleuo pobl ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y byd a gwreiddio ymdeimlad o gyfrifoldeb; nid yn unig rydym yn dysgu am y pethau hyn, ond rydym yn ymarfer ymateb addas i argyfwng yr hinsawdd ym mhopeth a wnawn. Ac yna, yn ddelfrydol, byddai hynny'n cael ei ailadrodd trwy bob sefydliad. Er enghraifft, mae hi wastad

yn anodd pan fo'n rhaid i chi daflu'r goleuni arnoch chi eich hun, onid yw? Fel academyddion, rydym yn tueddu i deithio mwy na'r rhelyw; felly mae rhywbeth yn ymarfer y byd academiaidd ei hun sy'n gynhenid anghynaliadwy. Mae gennyf ddiddordeb yn yr anghysur sy'n codi o droi'r sylw arnom ni ein hunain.

Pe gallech rannu un darn o gyngor am greu gyrfaedd llwyddiannus sydd hefyd yn foesegol a chynaliadwy, beth fyddai hynny?

Dylai pobl fod yn meddwl, beth mae arnaf eisiau ei wneud â'm un bywyd gwerthfawr unigol? Fy un cyfnod mewn amser yn y byd hwn a allai'n wir wneud y byd ychydig yn well, ac ychydig yn fwy dibennol ar gyfer y cenedlaethau nesaf. Ceisiwch ddychmygu eich hun yn y dyfodol; mae hynny'n swnio ychydig bach yn haniaethol, ond rwy'n sôn am fod â chyfeiriad meddwl sy'n cwmparu saith cenhedlaeth. Beth yw effaith gwneud hyn gen i heddiw, wythnos nesaf, y flwyddyn nesaf ond hefyd ar ddisgynyddion fy nisgynyddion i? Mae pobl yn aml yn well o lawer am ddatrys problemau nag yr ydym yn rhoi clod iddynt amdano, yn enwedig yr ifanc, ac mae'n ddigon posibl y byddant yn feddwl am ddatrysiad syml na fyddem ni byth wedi breuddwydio amdano.

“mae gan bobl lais ac mae eu llais wastad yn werth ei godi, oherwydd dydyn ni byth yn gwybod pwy allai fod yn ein clywed.”

Gwasanaethau proffesiynol

Cyfweliad gyda Dr Pamela Styles,
Uwch Swyddog Datblygu Academaidd.
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
Cyswllt: p.styles@uwtsd.ac.uk

“...beth yw ein diben ni? Beth yw diben addysg uwch? Pam ydym ni yma? Beth ydym ni’n ceisio ei wneud?”

Ble ddechreuodd eich diddordeb mewn cynaliadwyedd?

Fel datblygwr academaidd, y pethau rwy’n frwd drostynt yw cynwysoldeb a chynaliadwyedd ac felly y bu hi erioed. Rwyf wastad wedi ymdeimlo â chynaliadwyedd am ei fod yn cysylltu mor dda â’m synnwyr personol o sut rwy’n gweld y byd. Nid yw llawer o’r pethau rydym ni’n eu gwneud fel cymdeithas yn gwneud synnwyr i mi, dydyn ni ddim i’n gweld fel pe baem yn canolbwyntio ar hapusrwydd ac rwy’n frwd iawn dros bethau fel cyfiawnder cymdeithasol a llesiant. I mi, mae pob penderfyniad wedi ymwneud â beth sy’n mynd i’m gwneud i hapusaf a mwyaf tawel fy meddwl. Dyna fy mhrif rym ysgogol a’r math o egwyddorion personol sydd wedi cyd-fynd yn dda â chynaliadwyedd y mae a wnelo, wrth gwrs, â llesiant pawb, yn awr ac yn y dyfodol.

Ble ydych chi’n gweld y gorgyffyrddiadau rhwng cyflogadwyedd a chynaliadwyedd?

Yn gyntaf, cydnabod cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a’r gorgyffwrdd â chynaliadwyedd, ac yna yn eu tro, mae’r ddau o’r rhain yn berthnasol i fod yn llwyddiannus yn eich gyrfa. Pan ydych yn ystyried cynaliadwyedd a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rwy’n dweud o hyd, yr un peth ydyw yn y bôn. Gallwn gysylltu’r cymwyseddau sy’n ymwneud â chynaliadwyedd ond mae mwy iddo na dim ond y sgiliau; mae angen i fyfyrwyr gael y cyfle i’w defnyddio mewn cyd-destunau anghyfarwydd gan dynnu ar safbwyntiau amrywiol a phrofiadau personol, a chydabod a gallu enwi’r sgiliau y maent wedi’u datblygu. Dyna y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, onid e? felly maent yn dweud “Gallaf, gallaf wneud hyn”. Mae creu’r cysylltiad rhwng y pethau hyn i gyd a myfyrio ynghylch eu systemau gwerthoedd hwy eu hunain yn hollbwysig.

“bydd myfyrwyr yn gweithio mewn gweithleoedd bydeang, llawer o ddiwylliannau a safbwyntiau gwahanol.”

Byddwn i’n dweud mai’r hyn y mae ei angen arnom yw siapio unigolion sy’n gwerthfawrogi egwyddorion cynaliadwyedd a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a fydd wedyn yn dilyn yr holl yrfaoedd gwahanol hyn, ac y gallant wedyn fynd â’r sgiliau hynny a lleisio’r hyn y maent wedi’i ddysgu a gwahanol ffyrdd o edrych ar bethau.

Er enghraifft, cefais gyfle i weithio gyda chwmni yr oedd gennyf wrthwynebiadau cryf iddo, felly fe ffoniais elusen a oedd yn gweithio yn y gofod hwnnw a gofyn “alla i siarad gyda chi am hyn?” ac fe ddwedon nhw wrthyf “mae rhywun yn mynd i gael y swydd honno ac o’n safbwynt ni, mae’n well os mai chi ydyw”. Fe wnaeth hynny i mi feddwl yn wahanol am yrfa oedd, a sut y gallwn annog myfyrwyr i fyfrio ynghylch eu gwerthoedd personol hwy eu hunain a’r brwydrau y mae ganddynt yr egni i ymgymryd â hwy. Fe gymerais i’r swydd ac fe wnes i wahaniaeth cadarnhaol oddi mewn ond nid oeddwn yn gallu dal ati am yn hir.

“...llesiant pawb, yn awr ac yn y dyfodol”

Ydych chi wedi gweld enghreifftiau lle’r oedd nodau cyflogadwyedd byrdymor yn groes i flaenoriaethau cynaliadwyedd neu foesegol tymor hwy? Sut ymateboch chi?

Al Cynhyrchiol, dyma’r un lle’r wyf yn siarad byth a beunydd gyda phobl am wrthdaro â chynaliadwyedd, moeseg a dad-drefedigaethu. Rydym yn gwreiddio Al Cynhyrchiol trwy bopeth; yn ceisio paratoi myfyrwyr ar gyfer y peth yma y maent yn mynd i fod yn rhyngweithio ag ef. Ond mae pethau hefyd yn symud yn fwy tuag at gynaliadwyedd; bydd myfyrwyr yn gweithio mewn gweithleoedd byd-eang, llawer o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.

Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o duedd a meddwl yn feirniadol, o ble y daw data, o ble y daw gwybodaeth, a beth sy’n siapio’r hyn y maent yn ei weld ac nad ydynt yn ei weld.

Rwy’n meddwl tybed beth fydd yn digwydd pan fydd myfyrwyr yn dechrau dweud na wrth Al Cynhyrchiol ar sail foesegol; beth ydym ni’n mynd i’w wneud wedyn? Os ydych chi’n arbenigwr, gall arbed amser i chi, ond os ydych chi’n newydd, dydych chi ddim yn gwybod digon i sylweddoli pan fo’n syml yn siarad ar ei gyfer. Mae’n batriarchaidd hefyd, mae’n drefedigaethol yn yr ystyr bod gennych ddiffyg cydsyniad ar gyfer y data, y ffordd y dosberthir y data hwnnw ac y dosberthir pobl mewn ffyrdd nad ydynt yn alinio â’u hunaniaeth. Ceir pryderon ynghylch effaith amgylcheddol, llafur plant, caethwasiaeth fodern; mae hynny i gyd yn bodoli. Felly mae Al Cynhyrchiol yn tanseilio llawer o’r gwaith cynaliadwyedd ac rwy’n meddwl bod angen i ni wneud myfyrwyr yn ymwybodol o’r elfennau moeseg, cynaliadwyedd, cynwysoldeb a ble y mae’n gwrthdaro â’n hagendâu eraill.

Sut allem ni ailfeddwl am gyflogadwyedd fel ei fod yn ategu llwyddiant unigol a chydgyfrifoldeb am genedlaethau'r dyfodol yn well?

Mae cyflogadwyedd yn gweithio’n dda pan fo wedi’i wreiddio drwy’r cwrwicwlwm cyfan ond mae’r un peth yn wir am gynaliadwyedd, a hefyd am gynwysoldeb. Mae’r dyfodol i mi’n golygu mynd yn ôl, mewn ffordd. Rwy’n ystyried bod darlithydd yn guradur ac yn hwylusydd.

Mae'n golygu mynd yn ôl i archwilio gyda myfyrwyr beth y mae arnynt ei eisiau o fywyd mewn gwirionedd, meddwl am y dyfodol a sut fydd y byd. Mae angen i ni gydbblethu'r hyn y mae moeseg, cynaliadwyedd a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei olygu. Gofod wedi'i hwyluso i'w hannog i siarad gyda phobl, wyddoch chi, grwpiau amrywiol iawn o bobl yn meddwl yn feirniadol gyda'i gilydd, yn myfyrio, yn trafod popeth yn feirniadol, yn herio popeth; yr hyn sydd wedi trefnu eu disgyblaeth, sut y maent yn ffurfio barn, a beth sy'n werthfawr yn eu tyb hwy. Perthynu'r gwaith hwnnw i bethau fel llythrennedd gwybodaeth a siambrau atsain a thuedd algorithmig, a'r holl bethau felly. Wyddoch chi, mae angen i ni eu dwyn i gyd ynghyd, i fynd mor bell â siarad gyda'i gilydd.

Pe gallech rannu un darn o gyngor am greu gyrfaedd llwyddiannus sydd hefyd yn foesegol a chynaliadwy, beth fyddai hynny?

Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni'n gwneud digon gyda myfyrwyr o ran gofyn, "beth sy'n mynd i'ch gwneud chi'n hapus? Beth yw'r pethau rydych chi'n frwd drostynt? Ble allwch chi wneud gwahaniaeth?" Ond hefyd o ran meddwl am y brwydrau y mae'n rhaid iddynt eu hymhladd a diogelu eu llesiant. Ond hefyd myfyrio ynglŷn â beth yw ein diben ni? Beth yw diben addysg uwch? Pam ydym ni yma? Beth ydym ni'n ceisio ei wneud?

Dewch i ni roi i fyfyrwyr yr hyn na all neb ond ni ei wneud, sef cyfle i gwrdd â phobl o bob math o gefndir gwahanol, o bob

rhan o'r byd, ac i ryngweithio ag arbenigwyr yn y maes a all roi adborth uniongyrchol. Llawer o gyfleoedd i ymgysylltu, myfyrio ynghylch eu hunaniaeth a'u profiad hwy eu hunain, a sut y mae hynny'n trefnu eu gwerthoedd a'u normau. Y math yna o beth, cymhwysedd normadol, hunanymwybyddiaeth, meddwl, yn feirniadol, herio popeth, gofyn cwestiynau dwfn a rhoi galluedd i fyfyrwyr, rwy'n meddwl eu bod i gyd yn rhyw orgyffwrdd, ond rwy'n meddwl ein bod yn cyrraedd nodau lluosog yr un pryd, os gallwn gael hynny'n iawn.

“meddwl yn wahanol am yrfaedd, a sut y gallwn annog myfyrwyr i fyfyrio ynghylch eu gwerthoedd personol hwy eu hunain a'r brwydrau y mae ganddynt yr egni i ymgymryd â hwy.”

7 Hyfforddiant/adnoddau CMaCh

I roi rhagor o gymorth i ddatblygu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy mewn Prifysgolion fe luniwyd y rhestr ganlynol o hyfforddiant ac adnoddau CMaCh. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i'ch cynorthwyo chi'n bersonol neu fel adran neu sefydliad cyfan i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth am CMaCh er mwyn gwella'r addysg a'r sgiliau y mae ein myfyrwyr yn eu cael. Nid yw hon wedi'i bwriadu ar unrhyw gyfrif i fod yn rhestr lawn o adnoddau a hyfforddiant perthnasol ond dylai ddarparu man cychwyn defnyddiol. Mae'r holl hyfforddiant, adnoddau a dolenni'n gywir ac yn berthnasol ar adeg cyhoeddi.

Enw'r adnodd/hyfforddiant	Dolen i'r dudalen we
Ti, Fi a Dyfodol Cymru	Ti, Fi a Dyfodol Cymru OpenLearn - Y Brifysgol Agored
Sgiliau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer y Gweithlu IEMA	Cynaliadwyedd Amgylcheddol gan CCAf
Hyfforddiant Llythrennedd Carbon	
Ardystiad Addysg Werdd	
Cwrs Addysgwyr Gwyrdd	
Canllawiau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy	Canllawiau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy
Glasbrint PRME y CU ar gyfer Integreiddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn y Cwricwlwm (2020)	Glasbrint ar gyfer Integreiddio'r NDC uki-prme
Pecyn Cymorth Dylunio Cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy	Pecyn Cymorth Dylunio Cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Advance HE
Coleg y Mynydd Du (mae'n cynnig nifer o gyrsiau byrion sy'n gysylltiedig â gwahanol agweddau ar gynaliadwyedd)	Cyrsiau Byrion a Gweithdai Coleg y Mynydd Du
Y Ganolfan Technoleg Amgen (mae'n cynnig cyrsiau byrion ar amryw bynciau a disgyblaethau)	Cyrsiau Byrion - cat.org.uk
Cynnal Cymru (mae'n coladu'r holl Hyfforddiant Llythrennedd Carbon a gynigir yng Nghymru)	Llythrennedd Carbon – Cynnal Cymru – Sustain Wales
Sgiliau Sero Net Cymru	Sero Net Cymru – Gweithgynhyrchu, Ynni a'r Amgylchedd (NOW MEE) – Fe wnaed NOW MEE yn bosibl trwy gyllid gan raglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

OpenLearn	Nature & Environment - Featured content OpenLearn - Open University
Gweithgareddau AGCAS – Datblygiad proffesiynol, ymchwil ac adnoddau	https://www.agcas.org.uk/AGCAS-Research
Micro-gymhwyster y Brifysgol Agored	Newid Hinsawdd: Trawsnewid Eich Sefydliad Er Mwyn Cynaliadwyedd BZVM320

Ffigur 5. Adnoddau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â CMaCh

8 Argymhellion

Yn seiliedig ar y prosiect hyd yma ceir nifer o argymhellion eglur y gellir eu rhoi ar waith sy'n cael eu cynnig ac sydd â'r potensial i roi Cymru a'r DU ar flaen y gad gyda chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy o ran addysg drydyddol.

- + Creu **Dyfarniad Cynaliadwyedd mewn Addysg ar lefel AU ac AB ar gyfer Cymru Gyfan**. Byddai hyn yn creu ymdeimlad o gystadleuaeth iach rhwng sefydliadau addysg ond byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl rhannu arfer gorau. Byddai addysgwyr a myfyrwyr yn gallu cael cydnabyddiaeth am eu gwaith caled.
- + Creu **Rhwydwaith Cymru Gyfan** sy'n gyfrifol am sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran y ffordd yr ymdrinnir â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy ac addysg mewn perthynas â hynny. Byddai hyn yn cynnwys **system ddiffiniadau unedig** yn ogystal â ffordd o **fesur effaith** mentrau a gynhelir ar draws AU ac AB yng Nghymru.
- + Creu **cymunedau ymarfer rhanbarthol** sy'n cynnwys sefydliadau AU ac AB i roi anogaeth i rannu arfer gorau a chynyddu cydweithio a galluogi hynny i ddigwydd.
- + Creu **adnodd ar-lein** sy'n cynnwys enghreifftiau o arfer gorau, templedi ac adnoddau allweddol eraill a gwybodaeth allweddol arall i AU ac AB eu defnyddio wrth ddatblygu cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn eu sefydliad. Adnodd byw fyddai hwn a hwnnw'n cael ei ddiweddarau gan y cymunedau ymarfer rhanbarthol.
- + Bod cyflogadwyedd yn cael ei **wreiddio'n fwyfwy mewn deilliannau dysgu addysgegol** fel norm yn hytrach nag eithriad.
- + Adeiladu ar gysyniad yr **Hacathon AU Cymru Gyfan** bob blwyddyn, i esgor ar syniadau mentergar, arloesol a chreadigol a fydd yn effeithio ar nodau llesiant Cymru.
- + **Cydnabyddiaeth ar lefel rhaglenni** i safonau moeseg/cynaliadwyedd gofynnol sydd wedi'u gwreiddio mewn addysgu (gydag integreiddio/ymgyngchori da â chyrff achredu)

9 Cyfeiriadau

Advance HE. (2024). Framework for Education for Sustainable Development. Advance HE. Framework for Education for Sustainable Development | Advance HE (advance-he.ac.uk)

Brundtland, G.H. (1987). *Our Common Future: Report of the World Commission on Environment and Development*. Geneva: UN-Dokument A/42/427

Y Cenhedloedd Unedig. (2015). Transforming our World: The 2030 Agenda for Sustainable Development, A/RES/70/1. Microsoft Word - 1516301E.docx (un.org) Y Cenhedloedd Unedig. (2024a, Hydref 4). Academic Impact. Y Cenhedloedd Unedig. Launch of SET4HEI: Sustainability Evaluation Tool for Higher Education Institutions | United Nations

UNESCO. (2024, Hydref 4). What is education for sustainable development? UNESCO. What you need to know about education for sustainable development | UNESCO

UNESCO. (2024, Hydref 7). What you need to know on lifelong learning. UNESCO, 6 Medi 2024. What you need to know on lifelong learning | UNESCO

UNESCO. (2021). Datganiad Berlin ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Trafodion Cynhadledd y Byd UNESCO ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Datganiad Berlin ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy – Llyfrgell Ddigidol UNESCO

Llywodraeth Cymru (2025), “Llesiant cenedlaethau'r dyfodol”, ar gael yn: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU (cyrchwyd ar 2 Mehefin 2025)

10 Talfyriadau

EDI – Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

CMaCh – Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

AB – Addysg Bellach

AU – Addysg Uwch

NDC – Nodau Datblygu Cynaliadwy

AD – Addysg Drydyddol

DLICD – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

11 Atodiadau

Atodiad 1 – Crynodeb o'r holl Fentrau Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

Sefydliad	Prosiect	Cyswllt	Math o Fenter	Fformat y Gweithgar eddau	Amser	Aliniad â Chyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy
Prifysgol Abertawe						
PAt (Academi Dysgu ac Addysgu)	Cwrs Canvas 'Gwreiddio Cynaliadwydd ac Argyfwng yr Hinsawdd mewn Cwricwla Addysg Uwch' Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe	Dr Pamela Styles	Cwrs hyfforddi staff (cwricwlaidd)	Cwrs hyfforddi Canvas i staff	Yn barhaus/ hunan-gofrestru ac yn cael ei ddefnyddio ar alw	Mae'r cwrs yn cyfeirio'n benodol at gymwyseddau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC) sy'n alinio â phriodoleddau allweddol graddedigion.
*PAt (Tîm Cynaliadwydd)	Cwrs E-ddysgu Carbon a'r Hinsawdd Ar-lein	Teifion Maddocks	Allgyrsiol	Cwrs hyfforddi staff a myfyrwyr	1-2 awr	Mae'n rhoi i fyfyrwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i ymdrin â heriau cymdeithasol mawr. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant i aelodau o staff a all effeithio ar ddylunio a datblygu'r cwricwlwm.
PAt (Ysgol Reoli)	Cymdeithas Myfyrwyr Economi Gylchol Prifysgol Abertawe	Dr Sandra Dettmer	Allgyrsiol	Cymdeithas myfyrwyr	Yn barhaus	Arwain, rheoli prosiectau, cyfathrebu, gweithio mewn tîm a sgiliau gwyrdd.
PAt (Ysgol Reoli)	Arolwg o Gynaliadwydd ymhlith Myfyrwyr	Dr Fern Davies	Arolwg myfyrwyr (cwricwlaidd)	Arolwg myfyrwyr	Dosbarthu'n flynyddol	Mae'r arolwg yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella i gryfhau priodoleddau graddedigion.
*PAt (Ysgol Reoli)	Marchnata Er Daioni	Lucy Griffiths	Cwricwlaidd	Seminarau, darlithoedd a digwyddiadau	Modiwl (1 tymor)	Mae 'Marchnata Er Daioni' yn fenter sy'n integreiddio prosiectau a asesir sydd â chyswllt â diwydiant a osodir gan dri chleient allanol yn y trydydd sector: Ambiwylans Awyr Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, a The Wallich. Datblygu sgiliau diwydiant ymarferol mewn labordai.

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

PAt (Ysgol Reoli)	Modiwl Israddedig (Rheoli Amgylcheddol a Chynaliadwy)	Dr Jennifer Rudd a Sarah Atkinson	Cwricwlaidd	Seminarau a darlithoedd	Modiwl (1 tymor)	Sgiliau gwyrdd a throsoglwyddadwy, gwybodaeth bynciol a siaradwyr o fyd diwydiant/siaradwyr gwadd
PAt (Peirianeg)	Moeseg yn y Cwricwlwm Peirianeg	Dr Sam Rolland	Cwricwlaidd	Seminarau	Modiwl MSc (1 tymor)	Mae'r modiwl yn cyflwyno testunau y tu hwnt i agweddau technegol ar raddau'r myfyrwyr. Nid yw'r asesu trwy brosiect grŵp a briff polisi'n gyfarwyddol o ran y cwmpas technegol, gan alluogi myfyrwyr i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a myfyrion peirianegol moesegol a chynaliadwy i'w maes eu hunain.
PAt (Ysgol Reoli)	Menter a Chreadigrwydd: Entrepreneuriaeth ar Waith	Yr Athro Louisa Huxtable-Thomas	Cwricwlaidd	Seminarau a darlithoedd	Modiwl	Mae meddwl yn feirniadol, deall entrepreneuriaeth bwrpasol, effeithiad, bricolage a chasglu adnoddau, siarad gyda rhanddeiliaid a chasglu data'r farchnad wedi'u gwreiddio yn y cwrs. O ganlyniad i'r fenter hon, mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth well am rôl entrepreneuriaeth o ran ychwanegu gwerth at gymdeithas, nid dim ond creu cyfoeth.
PAt (Ysgol Reoli)	Prosiectau Busnes Copa (Cynaliadwydd a Moeseg)	Dr Fern Davies	Cwricwlaidd	Prosiect busnes gan gynnwys seminarau a darlithoedd.	Prosiect Busnes Copa (1 flwyddyn)	Mae'r prosiect busnes blwyddyn olaf yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymdrin â her go iawn o fyd diwydiant. Mae pob prosiect wedi'i alinio ag o leiaf un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac fe ddarparwyd prosiectau penodol mewn perthynas â chynaliadwydd, Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a moeseg.
PAt (Y Cyfryngau)	Gwreiddio Dulliau Gwyrdd mewn Modiwlau Ymarfer	Non Vaughn Williams	Cwricwlaidd	Darlithoedd/ asesiadau	Modiwl (1 tymor)	Mae'r fenter yn sicrhau bod graddedigion yn ennill dealltwriaeth lawn am y pwys y mae diwydiant yn ei roi ar egwyddorion cynhyrchu gwyrdd, o ddechrau un y broses gomisiynu nes cyflawni. Oherwydd y cyfle i gynhyrchu cynnwys, gall myfyrwyr roi'r egwyddorion hyn ar waith ac ennill hyder yn eu dealltwriaeth am ffyrdd moesegol a chynaliadwy o weithio mewn sector cystadleuol sy'n symud yn gyflym.

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

PAt (Y Gyfraith)	Gwreiddio Cynaliadwydd yn Seminarau'r Gyfraith	Karen Morrow	Cwricwlaidd	Darlithoedd a Seminarau	1-2 awr	Yng Nghymru mae datblygu cynaliadwy'n gysyniad cyfreithiol, ac mae mynd ar ei drywydd yn gosod cyrff cyhoeddus dan rwymedigaethau cyfreithiol penodol ac yn goleuo eu polisiau a'r modd y gorfodir y gyfraith. Mae gwybodaeth weithiol am hyn yn angenrheidiol i ddeall a defnyddio cyfraith reoleiddiol yng Nghymru, nid dim ond mewn cyd-destunau rheoleiddiol amgylcheddol ond yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac mae felly'n dwyn gwerth mewn ymarfer cyfreithiol ac apeliadau i gyflogwyr. Sgoriau sefydliadol (e.e. BCorp), adnoddau ar gyfer gwaith cynaliadwy a sut i ryngweithio â chyflogwyr.
PAt (Cyflogadwydd)	Dod o Hyd i Waith Cynaliadwy – Gweithdy i Fyfrwyr	Simeon Smith	Allgyrsiol	Gweithdy i fyfrwyr	1-2 awr	Gweithdy cyflogadwydd sy'n cwmpasu gwerthoedd proffesiynol, gwahanol fathau o gynaliadwydd mewn cyflogwyr,
PAt (Cyflogadwydd)	Polisi Gyrfaoedd Moesegol Prifysgol Abertawe	Simeon Smith	Polisi	Polisi	Amh.	Mae'n rhoi eglurder i fyfrwyr, staff a sefydliadau allanol ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'u rhyngweithiadau gyda Gyrfaoedd a Chyflogadwydd ym Mhrifysgol Abertawe.
PAt (Ysgol Reoli)	Asesu Modiwl Ôl-radd (Modiwl Arloesi ac Entrepreneuriaeth)	David Pickernell	Cwricwlaidd	Asesiad	Modiwl (1 tymor)	Caiff ffocws ar arloesi ac entrepreneuriaeth ei ehangu trwy fwrw golwg ar fater yn y byd go iawn lle bydd syniadau'n berthnasol yn ymchwil myfyrwyr yn y dyfodol.
PAt (Ysgol Reoli)	Hacathon DLICD Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	Samantha Burvill	Allgyrsiol	Digwyddi ad i fyfrwyr	6 awr	Fe gododd yr hacathon ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan annog myfyrwyr i feddwl am effaith hirdymor eu gweithredoedd.
PAt	Hacathon Rhyngwladol "Dyfeisiwch dros y blaned"	Kelly Jordan	Allgyrsiol	Digwyddi ad i fyfrwyr	48 awr	Fe ddatblygodd yr hacathon lawer o sgiliau ar gyfer graddedigion gan gynnwys y gallu i roi eu sgiliau datrys problemau i mewn i her yn y byd go iawn.
Y Brifysgol Agored						
Y BA	Micro-gymhwyster – 'Trawsnewid eich Sefydliad er mwyn Cynaliadwydd'	Victoria Hands	Cwricwlaidd	Micro-gymhwyster – dysgu ar-lein	100 awr	Mae'n cyflwyno sgiliau trosglwyddadwy ac ymarferol y gellir eu cymhwyso i sefydliad trwy gynllun gweithredu a ysbrydolir gan fewnwelediadau ac astudiaethau achos.

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

Y BA (Partneriaethau)	Adnodd E-ddysgu Ti, Fi a Dyfodol Cymru	Rebecca Falvey	Allgyrsiol	Adnodd OpenLearn i bawb	Yn barhaus	Mae'r adnodd yn darparu mwy o ddealltwriaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio, gan ddwyn budd i gyflogadwydd graddedigion.
*Y BA (Gyrfaedd a Chyflogadwydd)	Pecyn Cymorth Cynaliadwydd i Gyflogwyr	Jen Harrison	Allgyrsiol	Dau adnodd ar-lein i Gyflogwyr	Yn barhaus	Mae'r pecyn cymorth yn paratoi cyflogwyr ar gyfer cyfeiriad gwaith yn y dyfodol, gan roi gwybodaeth iddynt am y cyfrifoldebau a'r arferion y mae eu hangen mewn rolau gwaith.
Y BA (Gyrfaedd a Chyflogadwydd)	Dyfodol boddhaus ym maes yr amgylchedd a chynaliadwydd	Kate Machent	Allgyrsiol	Fforwm Myfyrwyr Ar-lein	Fforwm ar-lein 6 diwrnod – 12 mis o ddarllen yn unig	Fe alluogodd fyfyrwyr i gyfathrebu ar y cyd, gan gynnwys trafodaethau am bwnc cynaliadwydd a'i rôl yn yr amgylchedd gwaith.
Y BA	Digwyddiad Bydd Wyrdd: Nodau Datblygu Mewnol	Teresa Cox	Allgyrsiol	Digwyddiad i staff	Yn barhaus (wedi'i recordio)	Mae'r pwnc datblygu mewnol a gwmpesir yn disgrifio'r sgiliau y gellir eu caffael o'r broses. Mae galluedd a ddatblygir o hyn yn arwain at ymaddasu'n well i newid.
Y BA (Partneriaethau)	Medru – Ffatri Sgiliau Digidol	Samantha Forde	Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Ffatri Sgiliau Digidol i randdeiliaid lluosog	Yn barhaus	Mae'n darparu sgiliau sy'n ymwneud â data, seiberddiogelwch a TG, gan baratoi rhanddeiliaid ar gyfer gallu'r dirwedd i addasu yn y dyfodol. Amlinellir ymwybyddiaeth o ôl troed carbon.
Y BA (Cyfleoedd Myfyrwyr)	Cronfa Crewyr Busnes Agored	Robert Wilson	Allgyrsiol	Cystadleuaeth i fyfyrwyr	Bob blwyddyn	Mae offeryn a roddir i fyfyrwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried y Nodau Datblygu Cynaliadwy perthnasol ar gyfer eu dewis fenter ni waeth ym mha sector y mae'n gweithredu.
Y BA (Dysgu, Sgiliau ac Arloesi)	Archwiliad o'r Cwricwlwm o safbwynt y Nodau Datblygu Cynaliadwy dan arweiniad Myfyrwyr	Scott Mckenzie	Cwricwlaid	Prosiect ymchwil a arweinir gan Fyfyrwyr	60 o ddiwrnodau (oddeutu 2 fis)	Fe wnaeth mapio'r NDC gan fyfyrwyr roi cyfle iddynt gymhwyso eu dysgu i brofiad mewn bywyd go iawn, gan ddatblygu eu sgiliau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC).
* Y BA (Gyrfaedd a Chyflogadwydd)	Cynaliadwyathon	Jen Harrison	Allgyrsiol	Digwyddiad i fyfyrwyr	Un wythnos	Mae'r prosiectau elusennol a roddir i fyfyrwyr yn rhoi iddynt brofiad go iawn mewn amgylchedd gweithio digidol sy'n cael effaith fach ar yr amgylchedd. Enillir sgiliau megis datrys problemau'n greadigol a chyfathrebu.
Y BA (Darlledu a Phartneriaethau)	Yr Adfyw-wyr: Gyrfaedd Gwyrdd	Victoria Hands	Allgyrsiol	Adnodd Ar-lein BBC Bitesize ar gyfer	Yn barhaus	Mae'r gyfres o fideos digidol sy'n seiliedig ar faterion amgylcheddol ac elfennau cynaliadwydd pwysig,

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

				plant, pobl yn eu harddegau a phobl ifanc		yn arfogi'r plant â dealltwriaeth am hyn, ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.
Y BA (Grŵp Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu)	Cardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu	Kathleen Calder, Paul Astles	Cwricwlaidd	Adnoddau addysgol agored i addysgwyr	Yn barhaus	Mae'r cardiau sgiliau cynaliadwyedd yn helpu addysgwyr i roi i fyfyrwyr yr wybodaeth am ble y mae sgiliau cynaliadwyedd eisoes yn bodoli mewn sgiliau cyflogadwyedd a llythrennedd digidol. Mae'r fframwaith Dylunio Cyfrifol (RBD) yn ei gwneud yn bosibl ymdrin â chyfrifoldebau a goblygiadau moesegol lle mae AI Cynhyrchiol yn y cwestiwn.
Prifysgol Aberystwyth						
*PAY (Gyrfaedd a Chyflogadwyedd)	Polisi Gyrfaedd Moesegol Prifysgol Aberystwyth	Bev Herring	Polisi Gyrfaedd Moesegol	Polisi Gyrfaedd Moesegol	Yn barhaus	Mae'r polisi'n sicrhau bod y gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd yn y brifysgol yn alinio â'r gwerthoedd moesegol a chynaliadwy trwy flaenoriaethu'r gweithgareddau cysylltiedig.
PAY (Gyrfaedd a Chyflogadwyedd)	Her Cynaliadwyedd (Rhan o'r digwyddiad â ffocws ar gynaliadwyedd, GŵylGyrfaedd)	Bev Herring	Allgyrsiol	Digwyddiad (gweithdy rhyngweithiol) i fyfyrwyr	3.5 awr	Mae'r her yn galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau datrys problemau, gwaith tîm ac arwain, trwy arferion cynaliadwy. Hefyd, maent yn ennill hyder ar gyfer eu gyrfaoedd.
PAY (Biotechnoleg)	Gwreiddio NDC y CU a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ysgogwyr ar gyfer ymchwil mewn biotechnoleg.	Hazel Davey	Cwricwlaidd	Darlithoedd, gweithdai a gwaith cwrs ar gyfer myfyrwyr	Modiwl a ailadroddir bob blwyddyn	Trwy ymdrin ag enghreifftiau o gymhwyso NDC mewn biotechnoleg, caiff myfyrwyr eu gwneud yn ymwybodol o sut y mae cwmnïau a buddsoddwyr yn cael eu hysgogi gan gynaliadwyedd.
PAY (Newid Ymddygiad)	MSc Newid Ymddygiad	Simon Payne	Cwricwlaidd	Holl gynllun y cwrs	Bob blwyddyn	Anogir myfyrwyr i wneud gwahaniaeth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol drwy eu gwaith i gyd, ac yna i fod â'r gallu i gymhwyso'r cynnwys hwn ar ôl graddio.
PAY (Gwleidyddiaeth Ryngwladol)	Hwyluso ymgysylltiad cymunedol creadigol gan fyfyrwyr	Katy Budge	Allgyrsiol, Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Cyflwyno Gŵyl Undydd	Un diwrnod (mwy ar gyfer hyfforddiant cyn hynny)	Bydd cefnogi cymunedau ffoaduriaid yn galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau, profiad a hyder sy'n berthnasol i hyn a gwneud ystyriaethau mewn gwaith yn y dyfodol.
Prifysgol Metropolitan Caerdydd						

Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

PMC (GCCD)	Cyflawni'r Gronfa Cymorth Cyflogadwyedd a Dargedir ym Met Caerdydd	Laura Stutins	Trawsb ynciol	Amrywiaeth, cymorth un-i-un i fyfyrwyr yn bennaf	Mae gweithgareddau'n amrywio – e.e. apwyntiadau 20 munud neu 45 munud	Mae'n foesebol yn yr ystyr bod y brifysgol yn estyn allan at fyfyrwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol, gan rymuso eu sgiliau, a'i gwneud yn fwy tebygol y byddant yn cyfrannu'n gynaliadwy at yr economi yn y dyfodol.
PCDDS						
*PCDDS (Addysg y Blynyddoedd Cynnar)	Adennill Paradwys: Cynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar	Glenda Tinney	Cwricwlaidd	Modiwl gan gynnwys cyfranogiad myfyrwyr yng Ngwobr John Muir	Bob blwyddyn	Gan archwilio agweddau ar gynaliadwyedd mewn perthynas â lleoliad addysgu'r blynyddoedd cynnar, bydd yn cynorthwyo myfyrwyr i ymgysylltu â'r arferion hyn mewn cyflogaeth yn y dyfodol.
Prifysgol Caerdydd						
PC (Datblygu Addysg)	Pecyn Cymorth ADC Cynaliadwyedd a gweithdy Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ddatblygu a chefnogi staff.	Laura Barritt	Allgyrsiol	Pecyn cymorth ar-lein agored a gweithdy i staff	Pecyn cymorth – yn barhaus	Mae'r pecyn cymorth yn galluogi staff i ymgorffori arferion cynaliadwyedd pellach yn eu haddysgu, gyda hynny'n cael ei gryfhau gan y gweithdy a'u galluogodd i sgwrsio am ba arferion fydd yn cysylltu â phriodoleddau graddedigion.
PC (Ffisiotherapi)	MSc mewn Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru	Jill Morgan	Cwricwlaidd	Darlithoedd, gweithdai, prosiect grŵp i fyfyrwyr	Bob blwyddyn	Ceir profiad o broblemau'r byd go iawn yn y rhaglenni hyn, gan alluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol mewn perthynas â'r sector gofal iechyd, mewn modd y dylanwedir arno gan arferion cynaliadwy.
*PC (Ymgysylltu â Chyflogwyr)	Gweithgor a Gweithgaredd Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd	Jade Smithson-Perring	Allgyrsiol	Gweithgor, adnoddau ar-lein a digwyddiadau i staff a myfyrwyr	Yn barhaus	Mae'r fenter yn codi ymwybyddiaeth, yn hybu sgiliau meddwl yn feirniadol, yn rhoi anogaeth i wneud penderfyniadau gwybodus, yn ehangu mynediad at yrfaoedd gwyrdd, ac yn alinio â phriodoleddau graddedigion.
PC (Hanes Amgylcheddol)	Modiwl Hanes Amgylcheddol	Keir Waddington	Cwricwlaidd	Seminarau a darlithoedd i fyfyrwyr	Bob blwyddyn	Mae'r cwrs yn cynnwys cyfathrebu, cydweithio a myfyr, ar nifer o ffurfiau, ynglŷn â sut y caiff gwahanol faterion amgylcheddol eu hystyried mewn cyd-destun hanesyddol a sut y gellir defnyddio hyn i gael mewnwelediadau newydd.

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

PC (Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol)	Modiwl Gwyddorau Daear Cynaliadwy	Joel Gill	Cwricwlaidd	Gweithgareddau modiwl ac asesiad i fyfyrwyr	Bob blwyddyn	Caiff sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig eu gosod yng nghydestun heriau cynaliadwy. Mae data sy'n rhan o wybodaeth wyddonol yn cael ei ddadansoddi, ac mae myfyrwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd.
PC (Ysgol Fusnes)	Modiwl Datblygu Cynaliadwy a Rheoli gyda Natur, fel rhan o MSc Rheoli Rhyngwladol	Genevieve Shanahan	Cwricwlaidd	Seminarau i fyfyrwyr	Bob blwyddyn	Datblygir sgiliau mewn nifer o feysydd yn y modiwl hwn gan gynnwys datblygu gwybodaeth am heriau cynaliadwydd, fframwaith penderfynu seiliedig-ar-werthoedd, a dadansoddi data moesegol.
Prifysgol Bangor						
*PB	Lleoedd Newid Hinsawdd (PloCC)	Thora Tenbrink	Cwricwlaidd ac Allgyrsiol	Trawsbynciol (Rhaglen Meistr, seminarau misol, gweithdy, interniaeth)	Yn barhaus	Mae'r fenter yn blaenoriaethu camau gweithredu moeseg a chynaliadwydd, gan sicrhau bod amryw amgylcheddau gwaith, o fewn y byd academiaidd a'r tu hwnt iddo yn ymgysylltu â hwy.
PB	Cyllid Cynaliadwydd ac ACLI	Hizamshol Kamal	Cwricwlaidd	Seminarau i fyfyrwyr	Yn barhaus	Mae'n annog myfyrwyr i wneud penderfyniadau'n foesegol ac yn gynaliadwy oherwydd bod pob cam gweithredu'n gallu cael effeithiau ehangach a hirdymor, gan hefyd gysylltu eu heriau personol a phroffesiynol.
CBAC						
CBAC	Defnydd Sefydliadau Addysg Bellach o Gymhwyster Cynaliadwydd CBAC	Grŵp Colegau NPTC, Coleg Sir Gâr, sefydliadau AB eraill dienw a Twf Swyddi Cymru	Cwricwlaidd	Gweithredu'r cymhwyster fel rhan o raglenni sefydliadau	Yn barhaus	Mae'r Cymhwyster Cynaliadwydd yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a NDC y CU, gan addysgu'r myfyrwyr bod yr wybodaeth yn cael ei haddysgu.
*CBAC	Cymhwyster Addysg Bellach a ddatblygwyd mewn cydweithrediad gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r	Rachel Dodge	Cwricwlaidd	Cymhwyster yn cael ei gynnal trwy sefydliadau AB.	Yn barhaus	Mae'r cymhwysterau'n addysgu myfyrwyr am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a NDC y CU, a sut y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol yn eu gweithle.

Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Moesegol a Chynaliadwy

	Dyfodol.					
Prifysgol Wrecsam						
*PW	Rhwydwaith Dinesydd/Dinasyddion Ecolegol+	-	-	Rhwydwaith Ymchwil	4 blynedd	Mae'r tîm amllddisgyblaethol yn dod â gwybodaeth ynghyd ar gyfer dyfodol gwell i bawb trwy arferion cynaliadwy.
PW	Sgiliau Cynaliadwy ar gyfer Dyfodol Disgleiriach	Lucy Jones	Cwricwlaid	Gwelliannau i raglenni gradd	Yn barhaus	Mae'n rhoi cymorth i gymuned a addysgir sy'n mynd ymlaen i wella ymwybyddiaeth fyd-eang neu amgylcheddol yn eu gyrfaedd fel graddedigion.
PW	Prosiect Labordy Byw	Lesslie Malinga	Allgyrsiol	Prosiect	Un diwrnod	Cyfle gwirfoddoli i fyfyrwyr ymgysylltu â natur, gan ategu nodau cynaliadwydd y Brifysgol.
PW	Polisi Gyrfaedd Moesegol	Lynda Powell, Lucy Jones	Polisi	Polisi	Yn barhaus	Mae'r polisi'n cynrychioli'r cyfrifoldeb i gymryd cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder yr hinsawdd o ddifrif a dewis yn ofalus pa sefydliadau y maent yn gweithio gyda hwy.
PW	Fforwm Gweithredu ar Gynaliadwydd)	Wu	Allgyrsiol	Gwefan	Yn barhaus	Mae'n darparu adnoddau i fyfyrwyr ar brosiectau a mentrau cynaliadwy a moesegol eraill sy'n gallu ehangu eu dealltwriaeth.

12 Diolchiadau

Fe hoffai tîm y prosiect ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu enghreifftiau o arfer gorau i'r prosiect hwn. Mae eich angerdd, eich ymroddiad a'ch gwaith arloesol ym maes cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy'n cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol a byddant yn parhau i wneud hynny. Hoffem ddiolch hefyd i Medr ac Advance HE am y cyllid a'i gwnaeth hi'n bosibl cynnal y prosiect hwn yn y lle cyntaf ac am eu cefnogaeth barhaus. Hoffem ddiolch hefyd i'r myfyrwyr a'r cydweithwyr a gymerodd ran mewn cyfweiliadau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth hwn; mae eich mewnwelediadau a'ch cyfraniadau wedi ychwanegu cyfoeth dwfn at y pecyn cymorth. Yn y pen draw rydym yn gobeithio mai dim ond dechrau ymdrech gydweithredol yng Nghymru i fod ar flaen y gad o ran cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yw'r pecyn cymorth hwn.

Cysylltwch â ni

Pob ymholiad

E-bost: enquiries@advance-he.ac.uk

Mae Advance HE yn helpu sefydliadau AU i fod y gorau y gallant fod, trwy ddatgloi potensial eu pobl.

Rydym yn elusen a arweinir gan aelodau ac a berchnogir gan y sector sy'n gweithio gyda sefydliadau ac addysg uwch ledled y byd i wella addysg uwch i staff, myfyrwyr a chymdeithas. Rydym yn arbenigwyr mewn addysg uwch â ffocws penodol ar wella dysgu ac addysgu, llywodraethu effeithiol, datblygu arweinwyr a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ein gwaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI).

Mae ein nodau strategol i wella hyder ac ymddiriedaeth mewn AU, ymdrin ag anghydraddoldebau, hyrwyddo cynhwysiant a hybu addysg i ddiwallu anghenion esblygol myfyrwyr a chymdeithasol yn cefnogi gwaith ein haelodau a'r sector AU.

Rydym yn cyflawni ein cymorth trwy raglenni a digwyddiadau datblygu proffesiynol, Cymrodoriaethau, gwobrau, arolygon myfyrwyr ac ymchwil, gan ddarparu gwasanaethau newid strategol ac ymgynghoriaeth a thrwy aelodaeth (gan gynnwys achredu dysgu ac addysgu, siarterau cydraddoldeb, gwybodaeth ac adnoddau).

Mae Advance HE yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â'r rhif 04931031. Cwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Iwerddon â'r rhif 703150. Cofrestrwyd fel elusen yng Nghymru a Lloegr â'r rhif 1101607. Cofrestrwyd fel elusen yn yr Alban â'r rhif SC043946.

Swyddfa Gofrestredig: Advance HE, Innovation Way, York Science Park, Heslington, York, YO10 5BR, United Kingdom.

© 2026 Advance HE. Cedwir pob hawl.

Barn yr awdur yw pob barn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid barn Advance HE o anghenraid. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull, boed yn electronig neu'n fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio ac adfer heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Bydd caniatâd o'r fath yn cael ei roi fel arfer at ddibenion anfasnachol, addysgol ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth briodol. Ni ddylid defnyddio logo Advance HE heb ein caniatâd ni.

I ofyn am gopïau o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch ag Advance HE: enquiries@advance-he.ac.uk

advance-he.ac.uk

in **X** **f** @AdvanceHE